


# Royal Cambrian Academy
# Academi Frenhinol Gymreig

£2




**OPENING TIMES**

Tuesday – Saturday 11am – 5pm
Sunday 1pm – 4.30pm
Closed Monday
Open Bank Holidays

**ORIAU AGOR**

Dydd Mawrth – Dydd Sadwrn 11yb – 5yp
Dydd Sul 1yp – 4.30yp
Ar gau Ddydd Llun
Agored ar Wyliau Banc

**GALLERY STAFF / STAFF YR ORIEL**

Curator/Curadur: Gwyneth Jones
Assistant Curator/Curadur Cynorthwyol: Gill Burtwell
Technician/Technegydd: David Huntington




**CONTACT US**

Royal Cambrian Academy
Crown Lane
CONWY
LL32 8AN

**CYSYLLTWCH Â NI**

Academi Frenhinol Gymreig
Lôn y Goron
CONWY
LL32 8AN

Tel/ Ffôn  Fax/Ffacs: 01492 593413
E-Mail/E-Bost: rca@rcaconwy.org
www.rcaconwy.org




Published by Royal Cambrian Academy
Cyhoeddwyd gan Academi Frenhinol Gymreig

ISBN: 09507998 1 5

SUPPORTED BY/CEFNOGWYD GAN

CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY

This publication is a project funded by the Arts Council of Wales.
Ariannir y llyfryn yma gan Cyngor Celfyddydau Cymru.

The gallery is also grateful for the support of Conwy County Borough Council, Department of Tourism and Leisure; the Arts Council of Wales Lottery Fund; the Friends of the RCA and Conwy Town Council.
Mae'r Oriel hefyd yn ddiolchgar am gefnogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Adran Twristiaeth a Hamdden; Cronfa Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru; Cyfeillion yr AFG a Chyngor Tref Conwy

## Foreword from the President

The Royal Cambrian Academy was lucky to have had its headquarters in the great Elizabethan Mansion of Plas Mawr and we are now lucky to be in a lovely purpose built Gallery nearby. There we mount important exhibitions in order to bring pleasure to the people of Wales, for it is the public that we consider. At the same time we are well aware that excellence is something that we must always bear in mind as well as tradition, for we are not concerned with the modern idea that originality is all important. Consequently the Royal Cambrian Academy Gallery is a happy place, something that is unusual in the contemporary world of art.

All that we have achieved in recent years has been due to our close collaboration with Conwy County Borough Council, the National Museum and Galleries of Wales and the National Library of Wales. Their support has helped to make our Academy the most important centre for contemporary art in Wales.

Our Academy has now been in existence for a hundred and twenty years and we hope it will continue to be of service to Wales and its people for very many years to come.

Sir Kyffin Williams OBE RA PRCA

## Rhagair gan y Llywydd

Bu'r Academi Frenhinol Gymreig yn ffodus iawn i gael ei phencadlys ym Mhlasty Elisabethaidd Plas Mawr am bron i gan mlynedd ac rydym yn ffodus eto i gael Oriel bwrpasol gerllaw erbyn hyn. Yno rydym yn llwyfannu arddangosfeydd pwysig i roi pleser i bobl Cymru, oherwydd y cyhoedd sy'n bwysig i ni. Ar yr un pryd, rydym yn ymwybodol iawn fod rhagoriaeth yn rhywbeth i anelu ato bob amser yn ogystal â thraddodiad, ac nid yw'r syniad modern fod gwreiddioldeb yn holl-bwysig yn ein poeni rhyw lawer. O ganlyniad, mae'r Academi Frenhinol Gymreig yn lle hapus, rhywbeth sy'n anghyffredin ym myd celf heddiw.

Mae popeth yr ydym wedi ei gyflwyno dros y blynyddoedd diwethaf yn ffrwyth cydweithio agos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Amgueddfeydd ac Orielau Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae eu cefnogaeth hwy wedi helpu i sefydlu ein Hacademi fel y ganolfan bwysicaf i gelfyddyd gyfoes yng Nghymru.

Mae'r Academi wedi bodoli ers cant ac ugain o flynyddoedd erbyn hyn ac rydym yn gobeithio y bydd yn parhau i wasanaethu Cymru a'i phobl am flynyddoedd lawer i ddod.

Syr Kyffin Williams OBE RA Ll AFG

# A short history of the Royal Cambrian Academy

In the late 19th Century, North Wales was home to the first artists' colony in Britain. It emerged from the summer sojourns of David Cox at Betws-y-Coed between 1844 and 1856, and by 1881 the Conwy Valley was at the peak of its fame as a home and a resort for large numbers of professional and amateur painters. The prospect of viewing artists at work attracted thousands of visitors, and Llandudno emerged as a centre for the sale of pictures.

The seven men who launched the Academy were all devotees of the artists' colony, most of them originally from the North West of England from where Betws-y-Coed had become easily accessible by train. They were John Johnson of Trefriw, Charles Potter of Tal-y-Bont, and three of the 'Manchester' School residing in the Conwy Valley, William Meredith, Joshua Anderson Hague and George Hayes. Their elected chairman was Edwin Arthur Norbury and Secretary William L. Banks of Conwy. They met at the Llandudno Junction Hotel on 12th November 1881 and drew up a prospectus which was published two weeks later :-

"The Royal Academy and other institutions of similar character have long been established in England, the Royal Hibernian Academy in Ireland, the Scottish Academy in Scotland, but Wales has hitherto felt the want of a kindred society of its own. It has therefore been resolved to establish 'The Cambrian Academy of Art' in the hope that such an Institution will give impetus to the further development of Art in connection with the Principality."

By January 1882, the thirty-one founding members of the Academy had been accepted, along with eight associates, and three months later the influence of Mr Gladstone secured royal patronage from Queen Victoria. The first Exhibition of the Royal Cambrian Academy opened on 20th June 1882 in temporary premises in Llandudno, where 129 works by 35 artists were shown. The membership had continued to expand after the original deadline for applications to join, the most notable newcomer being the distinguished painter Henry Clarence Whaite. A decision on the application of Carrie Walker to join the Academy in 1882 was deferred, for effectively the new institution operated a men-only policy.

Unlike the English cities of Manchester and Liverpool, Wales had no purpose built art gallery, and the question of a home exercised members through the first few years. There were efforts to establish a permanent gallery in Cardiff, but two exhibitions there in 1884 and 1885 were financially disastrous and alternative venues included Bangor, Rhyl and even Conwy Castle! Then Lord Mostyn offered the Royal Cambrian Academy a permanent home in Plas Mawr in Conwy. It was in a dilapidated state, in part occupied by an infant school and a stable. However on June 4th 1886, the Royal Cambrian Academy moved into its new premises. That year the Summer Exhibition included Leighton's 'Cimabue's Madonna carried through Florence', on loan from Queen Victoria, a portrait by Alma-Tadema and Millais' 'Blind Girl' on loan from the Mayor of Conwy, Albert Woods. In 1888 the Academy marked the Queen's Jubilee by presenting her with two albums of watercolours by fifty-one members, the first being exclusively of Welsh landscapes.

Finally the Academy had a home and a sound financial base, although the fabric of Plas Mawr needed constant attention, and during the following years, a thorough restoration at the Academy's expense was undertaken under the direction of the Secretary, William L. Banks. But however beautiful the newly restored Plas Mawr had become, it was highly unsuitable as an art gallery. It was decided at a meeting on February 12th 1895 to put up a 'temporary building on good foundations' in the garden of Plas Mawr. The exhibition gallery, a wooden framed, slate roofed, top-lit building on wooden piers was completed in October 1895 and named the 'Victoria Gallery'. It was opened with a grand fancy dress ball on February 11th 1896. A hundred years later (almost to the day of its inception), in February 1995 the same wooden building which had served the Academy so well, was knocked down as part of the refurbishment of Plas Mawr.

The much improved hanging space provided by the Victoria Gallery had resulted in bigger exhibitions with as many as five hundred works, including submissions by non-members, being hung. Much of this organisational progress was due to the Academy's first President, Henry Clarence Whaite. He was a man of great enthusiasm and energy who had trained in Manchester and the Royal Academy Schools, who exhibited widely and later also became President of the Manchester Academy of Fine Arts. In 1998, an exhibition of his work, originated by the National Library of Wales and curated by Peter Lord and David Mortimer-Jones, toured widely in Wales, culminating at the Royal Cambrian Academy in Conwy. This allowed a new generation to see many of his powerful oil paintings and watercolours.

The next president was Sir Cuthbert Grundy, whose 21 years as president saw a continuation of the grand scale Annual Summer Exhibitions, widely supported and selling well, although they were often criticised in the press as not being particularly adventurous! Grundy commissioned a commemorative

medallion to celebrate the 50th anniversary of the Academy in 1932. When he retired in 1934, Augustus John became President. However, having been present for his election, life having too much to offer elsewhere, he never attended another meeting. He was replaced in 1939 with Richard Hinchcliffe. The balance was redressed however, when, in 1997, an exhibition of John's drawings, which was curated by his granddaughter, Rebecca John RCA, the National Galleries of Wales and the London gallery, Spinks, opened in London and then toured Wales. Its final venue was in the Royal Cambrian Academy, where it was a spectacular success, drawing thousands of visitors.

The following years saw women on the Council, a change of royal patron to HM the Queen Mother in 1952 and the usual successful Annual Summer Exhibitions. However, the high costs of looking after Plas Mawr had become an onerous burden for the Academy and changes needed to be made. In 1972 the President, Kyffin Williams, sought to encourage the Academicians to move out of Plas Mawr, having secured Oriel Mostyn in Llandudno as a new base. Despite the many advantages of this move, he was unable to persuade the Academicians, and resigned in protest.

In 1991 the Conwy Tunnel was opened and this meant changes for everyone within the walls of Conwy. With the end of traffic congestion there was a wonderful opportunity for Conwy to welcome visitors in a quiet atmosphere, largely unknown in the previous thirty years. Discussions took place between Cadw, Lord Mostyn and the Academy with a view to passing the tenancy of Plas Mawr to Cadw, who spent two years refurbishing the building before re-opening it to the public as a fine example of an Elizabethan town mansion. Next door to the Victoria Gallery was a chapel, Capel Seion, which was empty and sadly neglected. After protracted negotiations between the RCA, working with architect Skip Belton, Conwy County Borough Council, Geoffrey Edwards of Project Conwy, Cadw and the Wales Tourist Board, a new purpose built gallery was created. Its first exhibition opened on June 12th 1993.

With the move came other changes. Ray Fields resigned as President in 1992, having held the office since 1983, and, after a period of transition for the Academy under the guidance of David Hillhouse, Kyffin Williams took on the Presidency for a second time. In 1993, I joined the Academy as Curator on the retirement of Sylvia and Leonard Mercer. Kyffin Williams undertook a programme of bringing in artist members from all over Wales, with a concentration on South and Mid Wales, raising the number of members to over a hundred. He and the Council introduced a programme of nine exhibitions a year. New links were forged with other galleries in Wales, and the Academy, for the first time in many years, sent an exhibition to the National Museums and Galleries of Wales in Cardiff. They reciprocated by allowing important collections to come to Conwy, as did the National Library of Wales. A new 'Friends of the RCA' was formed with the help and guidance of Anne Forrest, Lauren Lindee and chairman, Michael Senior. The support of the Friends has been invaluable and the funds they have raised have been put back into the gallery in many different ways to enhance the exhibition and educational programmes.

The Academy now has an all year round exhibition programme and the gallery, because of its large and elegant space, is also an excellent venue for lectures, book launches and slide shows. Every private view draws at least 100 people and every exhibition, on average, nearly 2000 visitors. Funding comes from Conwy County Borough Council, Conwy Town Council, the Arts Council of Wales, some small but generous local trusts and, of course the Academy itself. Continuing the long tradition in Plas Mawr, art classes fill the gallery on Wednesdays with landscape painting taken by lecturer Jeremy Yates and life drawing in the evenings with David Loten. The open Annual Summer Exhibition continues to draw both artists and the summer crowds, with sales of paintings rising year on year.

The knighthood bestowed on the President Sir Kyffin Williams in 1999 was a great honour, raising the already high profile of the President and the Academy, and, in what was a very successful year for the Academy, Gwyneth Jones took over as Curator. Sadly in 2002 HM Queen Elizabeth, the Queen Mother, who had been a generous and thoughtful patron, died aged 101.

As we look towards the future for the Royal Cambrian Academy we hope that it will be as secure and steadfast as the last 120 years. We are confident that the artist members will continue to prove that art in Wales is flourishing and that the Academy remains a significant force in that endeavour.

Vicky Macdonald (Hon RCA)

Curator 1993 - 1999

# Hanes yr Academi Frenhinol Gymreig yn gryno

Yn ail hanner y 19eg ganrif, roedd Gogledd Cymru yn gartref i'r wladfa arlunwyr gyntaf ym Mhrydain. Canlyniad ymweliadau David Cox â Betws-y-Coed dros yr haf rhwng 1844 ac 1856 oedd hyn, ac erbyn 1881 roedd enwogrwydd Dyffryn Conwy fel cartref a chanolfan i nifer fawr o arlunwyr proffesiynol ac amatur ar ei anterth. Roedd y gobaith o weld artistiaid wrth eu gwaith yn denu miloedd o ymwelwyr, a daeth Llandudno i amlygrwydd fel canolfan gwerthu lluniau.

Roedd y saith dyn a lansiodd yr Academi i gyd yn aelodau brwd o'r wladfa arlunwyr. Deuai'r rhan fwyaf ohonynt yn wreiddiol o Ogledd Orllewin Lloegr ac erbyn y cyfnod hwn roedd Betws-y-Coed o fewn cyrraedd hwylus ar y trên. Y saith oedd John Johnson o Drefriw, Charles Potter o Dal-y-Bont, a thri aelod o Ysgol 'Manceinion' a oedd yn byw yn Nyffryn Conwy, sef William Meredith, Joshua Anderson Hague a George Hayes. Edwin Arthur Norbury oedd eu Cadeirydd etholedig a William L. Banks o Gonwy oedd yr Ysgrifennydd. Cyfarfuont yn y Llandudno Junction Hotel ar y 12fed Tachwedd 1881 gan lunio prosbectws a gafodd ei gyhoeddi bythefnos yn ddiweddarach :-

"The Royal Academy and other institutions of similar character have long been established in England, the Royal Hibernian Academy in Ireland, the Scottish Academy in Scotland, but Wales has hitherto felt the want of a kindred society of its own. It has therefore been resolved to establish 'The Cambrian Academy of Art' in the hope that such an Institution will give impetus to the further development of Art in connection with the Principality."

Erbyn Ionawr 1992, roedd un aelod ar ddeg ar hugain cychwynnol yr Academi wedi cael eu derbyn, ynghyd ag wyth aelod cysylltiol, a thri mis yn ddiweddarach sicrhaodd dylanwad Mr Gladstone nawddogaeth frenhinol y Frenhines Fictoria i'r fenter. Agorwyd Arddangosfa gyntaf yr Academi Frenhinol Gymreig ar yr 20fed Mehefin 1882 mewn ystafelloedd dros dro yn Llandudno, lle'r arddangoswyd 129 o weithiau gan 35 o arlunwyr. Parhaodd yr aelodaeth i gynyddu ar ôl y dyddiad cau gwreiddiol ar gyfer ymuno, a'r newydd-ddyfodiad amlycaf oedd yr arlunydd adnabyddus Henry Clarence Whaite. Gohiriwyd penderfynu ar gais Carrie Walker i ymuno â'r Academi yn 1882, am fod y sefydliad newydd mewn gwirionedd yn gweithredu polisi 'dynion yn unig'.

Yn wahanol i ddinasoedd Manceinion a Lerpwl yn Lloegr, nid oedd gan Gymru oriel gelf wedi'i chodi'n bwrpasol, ac roedd sicrhau cartref i'r Academi yn fater a achosodd gryn benbleth i'r aelodau yn y blynyddoedd cyntaf. Ceisiwyd sefydlu oriel barhaol yng Nghaerdydd, ond bu dwy arddangosfa a gynhaliwyd yno yn 1884 ac 1885 yn fethiant trychinebus yn ariannol ac ymysg y lleoliadau eraill a ystyriwyd yn lle Caerdydd roedd Bangor, y Rhyl a hyd yn oed Gastell Conwy! Yna, cynigiodd yr Arglwydd Mostyn gartref parhaol i'r Academi Frenhinol Gymreig ym Mhlas Mawr yng Nghonwy. Roedd yr adeilad mewn cyflwr gwael, a rhan ohono'n cael ei ddefnyddio gan ysgol babanod a stabl. Fodd bynnag, ar y 4ydd Mehefin 1886, symudodd yr Academi Frenhinol Gymreig i'w chartref newydd. Y flwyddyn honno roedd Arddangosfa'r Haf yn cynnwys 'Cimabue's Madonna carried through Florence' gan Leighton, ar fenthyg oddi wrth y Frenhines Fictoria, portread gan Alma-Tadema a 'Blind Girl' gan Millais, ar fenthyg oddi wrth Faer Conwy, Albert Woods. Yn 1888 dynododd yr Academi Jiwbilî'r Frenhines drwy gyflwyno dau albwm o luniau dyfrlliw gan hanner cant ac un o aelodau iddi, gyda'r cyntaf yn cynnwys dim ond tirluniau o Gymru.

O'r diwedd roedd gan yr Academi gartref a seiliau ariannol cadarn, er bod angen sylw parhaus ar adeiladwaith Plas Mawr, a thros y blynyddoedd dilynol gwnaed gwaith adfer cynhwysfawr arno ar draul yr Academi, o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd, William L. Banks. Ond er mor hardd oedd Plas Mawr ar ei newydd wedd, roedd yn gwbl anaddas fel oriel gelf. Mewn cyfarfod ar y 12fed Chwefror 1895, penderfynwyd codi 'adeilad dros dro ar sylfeini cadarn' yng ngardd Plas Mawr. Cwblhawyd yr oriel arddangos, adeilad ffrâm bren, to llechi, wedi'i oleuo o'r top, ar bileri pren, ym mis Hydref 1895 ac fe'i henwyd yn 'Oriel Fictoria'. Agorwyd yr oriel gyda dawns gwisg ffansi fawreddog ar yr 11eg Chwefror 1896. Gan mlynedd yn ddiweddarach (i ddiwrnod ei sefydlu bron), ym mis Chwefror 1995 cafodd yr un adeilad pren, a oedd wedi gwasanaethu'r Academi gystal, ei ddymchwel fel rhan o'r gwaith o adnewyddu Plas Mawr.

Gyda'r cyfleusterau hongian llawer rhagorach yn Oriel Fictoria roedd modd cynnal arddangosfeydd llawer mwy ac roedd cynifer â phum cant o weithiau, yn cynnwys eitemau gan arlunwyr nad oeddent yn aelodau, yn cael eu hongian. Roedd llawer o'r cynnydd trefniadaethol hwn i'w briodoli i Lywydd cyntaf yr Academi, Henry Clarence Whaite. Roedd yn ddyn llawn brwdfrydedd ac egni a gafodd ei hyfforddi yn Ysgol Manceinion ac Ysgol yr Academi Frenhinol, roedd yn arddangos ei waith yn eang ac yn ddiweddarach daeth yn Llywydd ar Academi Celfyddyd Gain Manceinion. Yn 1998, aeth arddangosfa o'i waith, a ysgogwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, gyda Peter Lord a David Mortimer-Jones yn guraduriaid, ar daith ar hyd a lled Cymru, gan orffen yn yr Academi Frenhinol Gymreig yng Nghonwy. Bu'n gyfle i genhedlaeth newydd weld llawer o'i baentiadau olew a dyfrlliw pwerus.

Y Llywydd nesaf oedd Syr Cuthbert Grundy, ac yn ystod ei 21 mlynedd yn llywydd parhaodd yr Arddangosfa Haf Flynyddol ar raddfa fawr, gan ddenu cefnogaeth eang a gwerthu'n dda, er bod yr arddangosfeydd yn cael eu beirniadu'n aml yn y wasg am beidio â bod yn rhyw fentrus iawn! Comisiynodd Grundy fedaliwn coffa i ddathlu hanner can mlwyddiant yr Academi yn 1932. Pan ymddeolodd yn 1934, daeth Augustus John yn llywydd. Fodd bynnag, ar ôl bod yn bresennol i gael ei ethol, gan fod bywyd â chymaint i'w gynnig mewn mannau eraill ni fynychodd yr un cyfarfod arall byth wedyn. Disodlwyd ef gan Richard Hinchcliffe yn 1939. Unionwyd y sefyllfa, fodd bynnag, yn 1997, pan agorodd arddangosfa yn Llundain o luniau John, wedi'i rhoi at ei gilydd gan ei wyres, Rebecca John AFG, Orielau Cenedlaethol Cymru a Spinks, oriel yn Llundain, cyn mynd ar daith yng Nghymru. Yr Academi Frenhinol Gymreig oedd lleoliad olaf yr arddangosfa, a bu'n llwyddiant ysgubol yma gan ddenu miloedd o ymwelwyr.

Dros y blynyddoedd nesaf gwelwyd menywod ar y Cyngor, daeth EM y Fam Frenhines yn noddwr brenhinol yn 1952 a chynhaliwyd yr Arddangosfeydd Haf Blynyddol llwyddiannus arferol. Fodd bynnag, roedd costau uchel cynnal a chadw Plas Mawr wedi mynd yn dreth ar yr Academi ac roedd angen gwneud newidiadau. Yn 1972, ceisiodd y Llywydd, Kyffin Williams, annog yr Academyddion i symud allan o Blas Mawr, ac yntau wedi sicrhau Oriel Mostyn yn Llandudno fel canolfan newydd. Er gwaethaf manteision lu y symudiad hwn, methodd â pherswadio'r Academyddion ac ymddiswyddodd mewn protest.

Yn 1991 agorwyd Twnnel Conwy a golygai hyn newidiadau i bawb o fewn muriau Conwy. Gyda diflaniad y tagfeydd traffig, roedd yna gyfle penigamp i Gonwy groesawu ymwelwyr mewn awyrgylch tawel, rhywbeth na chafwyd mohono o gwbl bron dros y deng mlynedd ar hugain cyn hynny. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng Cadw, yr Arglwydd Mostyn a'r Academi gyda golwg ar drosglwyddo tenantiaeth Plas Mawr i Cadw, a dreuliodd ddwy flynedd yn adnewyddu'r adeilad cyn ei ailagor i'r cyhoedd fel enghraifft ragorol o blasty tref Elisabethaidd. Drws nesaf i Oriel Fictoria roedd capel, Capel Seion, a oedd yn wag ac mewn cyflwr truenus. Ar ôl trafodaethau hirfaith rhwng yr AFG, yn gweithio gyda'r pensaer Skip Belton, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Geoffrey Edwards o Brosiect Conwy, Cadw a Bwrdd Croeso Cymru, crëwyd oriel newydd bwrpasol. Agorodd ei harddangosfa gyntaf ar Fehefin y 12fed 1993.

Gyda'r symud daeth newidiadau eraill. Ymddiswyddodd Ray Fields fel Llywydd yn 1992, ar ôl bod yn y swydd er 1983, ac, ar ôl cyfnod o drawsnewid i'r Academi o dan arweiniad David Hillhouse, ymgymerodd Kyffin Williams â'r llywyddiaeth am yr ail waith. Ym 1993 ymunais a'r Academi fel Curadur ar ôl i Sylvia a Leonard Mercer ymddeol. Aeth y Llywydd a Cyngor newydd ati i ddenu arlunwyr o bob rhan o Gymru i ymaelodi, gan ganolbwyntio ar y De a'r Canolbarth, a chynyddodd nifer yr aelodau i dros gant. Cyflwynodd ef a'r Cyngor raglen o naw arddangosfa y flwyddyn. Lluniwyd cysylltiadau newydd gydag orielau eraill yng Nghymru ac, am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer, anfonodd yr Academi arddangosfa i Amgueddfeydd ac Orielau Cymru yng Nghaerdydd. Ymatebasant hwythau drwy ganiatáu i gasgliadau pwysig ddod i Gonwy, fel a wnaeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Sefydlwyd grŵp newydd, 'Cyfeillion yr AFG', gyda help ac arweiniad Anne Forrest, Lauren Lindee a'r cadeirydd, Michael Senior. Mae cefnogaeth y Cyfeillion wedi bod yn amhrisiadwy ac mae'r arian a godwyd ganddynt wedi cael ei fuddsoddi'n ôl yn yr oriel mewn llu o ffyrdd gwahanol er mwyn gwella'r rhaglenni arddangos a'r rhaglenni addysgol.

Erbyn hyn mae gan yr Academi raglen arddangos gydol y flwyddyn ac mae'r oriel, gyda'i darpariaeth eang a chain, hefyd yn lleoliad rhagorol ar gyfer darlithoedd, lansio llyfrau a sioeau sleidiau. Mae pob arddangosiad preifat yn denu o leiaf 100 o bobl a phob arddangosfa, ar gyfartaledd, yn denu bron i 2000 o ymwelwyr. Ceir nawdd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Tref Conwy, Cyngor Celfyddydau Cymru, rhai ymddiriedolaethau lleol bach ond hael ac, wrth gwrs, yr Academi ei hun. Gan barhau â'r traddodiad hir ym Mhlas Mawr, mae dosbarthiadau celf yn llenwi'r oriel ar ddydd Mercher gyda'r darlithydd Jeremy Yates yn cynnal dosbarthiadau tirlunio a David Loten yn cynnal dosbarthiadau tynnu bywluniadau gyda'r nos. Mae'r Arddangosfa Haf Flynyddol agored yn dal i ddenu arlunwyr a thyrfaoedd yr haf, a chaiff mwy a mwy o luniau eu gwerthu o flwyddyn i flwyddyn.

Roedd urddo'r Llywydd, Syr Kyffin Williams, yn farchog yn 1999 yn anrhydedd fawr, gan roi amlygrwydd pellach i broffil y Llywydd a'r Academi, ac, yn ystod blwyddyn llwyddiannus iawn i'r Academi, cymerodd Gwyneth Jones fy lle fel Curadur. Yn anffodus, yn 2002, bu farw EM y Frenhines Elisabeth, y Fam Frenhines, a fu'n noddwr hael ac ystyriol, yn 101 oed.

Wrth i ni yn yr Academi Frenhinol Gymreig edrych tua'r dyfodol, gobeithiwn y bydd mor sicr a chadarn â'r 120 mlynedd diwethaf. Rydym yn hyderus y bydd yr arlunwyr sy'n aelodau yn dal i brofi bod celfyddyd yng Nghymru yn ffynnu a bod yr Academi yn parhau i fod yn rym o bwys yn yr ymdrech honno.

Vicky Macdonald (AFG Anrh)

Curadur 1993 - 1999



## Keith Andrew

Born London, 1947. Has lived in Anglesey since turning to painting full time in 1975.

Studied at Ravensbourne College of Art, Bromley, Kent.

Elected to RCA 1980. Vice President of the RCA 1993-95.

"If an artist consciously tries to change style it rarely succeeds, as the viewer merely dismisses it as just a shallow gimmick to impress or maybe just a clever technique. For my part, different subjects demand different techniques to convey the idea. Recently, I became frustrated by the sheer difficulty of painting a watercolour in inclement weather, this prompted me to change to a different media to achieve what I wanted and in so doing a new direction emerged which I hope to build upon."

---

Ganed yn Llundain, 1947. Mae wedi byw ar Ynys Môn ers iddo ddechrau peintio'n llawn amser yn 1975.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Ravensbourne, Bromley, Caint.

Etholwyd i'r AFG 1980. Is-lywydd yr AFG 1993-95.

"Os yw arlunydd yn mynd ati'n fwriadol i newid ei arddull, anaml y bydd hynny'n llwyddo. Bydd y sawl sy'n edrych ar y lluniau yn meddwl mai ymgais arwynebol i greu argraff yw, neu ryw dechneg glyfar efallai. O'm rhan i, rhaid defnyddio technegau gwahanol i beintio gwrthrychau gwahanol er mwyn cyfleu'r syniad. Yn ddiweddar, roeddwn yn teimlo mor rhwystredig am ei bod mor anodd peintio llun dyfrlliw mewn tywydd garw nes i mi newid i gyfrwng gwahanol i gyflawni'r hyn yr oeddwn yn anelu ato ac, wrth wneud hynny, agorodd cyfeiriad newydd i mi y gobeithiaf adeiladu arno."



*Rocky Cove, Rhoscolyn*
*Watercolour & Gouache / Dyfrliw & Gouache*



## Dudley Bailey

Born in Didsbury, Manchester, 1931. Lives in Kenilworth, Warwickshire.

Studied at Salford College of Art.

Elected to RCA 1977.

"My subject matter is inspired greatly by the time I spent living in Wales. Beach scenes with big open skies, landscapes and the docks at Cardiff and Swansea have been the source for many paintings and drawings. My early years in Manchester have also had a great influence on my work and include many paintings and drawings of children, bonfires, cricket and football matches around the back streets of Salford, Old Trafford and Moss Side."

---

Ganed yn Didsbury, Manceinion, 1931. Mae'n byw yn Kenilworth, Swydd Warwick.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Salford.

Etholwyd i'r AFG 1977.

"Ysbrydolir cynnwys fy ngwaith yn fawr iawn gan yr amser a dreuliais yn byw yng Nghymru. Bu traethau gydag awyr eang agored uwchben, tirweddau a'r dociau yng Nghaerdydd ac Abertawe yn ffynhonnell i lawer o baentiadau a lluniau. Cafodd fy mlynyddoedd cynnar ym Manceinion ddylanwad mawr ar fy ngwaith hefyd gan arwain at lawer o beintiadau a lluniau o blant, coelcerthi a gemau criced a phêl-droed ar hyd strydoedd cefn Salford, Old Traffford a Moss Side."



*Air Commodore B. Barrett CBE DFC*
*Pastel*



## Gerry Ball

Born Ashton-Under-Lyne, 1948. Lives in Ceredigion.

Started painting professionally after moving to Wales in 1976.

Elected to RCA 1978.

"My paintings are all done on location, each work taking several days to complete. Farm barns, stables, potting sheds and cottages, plus the truly remarkable range of objects found therein, all provide inspiration. Traditional methods of the watercolour medium are an important aspect of my work. These methods are both sympathetic to the varied subjects and the practicality of working in situ."

---

Ganed yn Ashton-Under-Lyne, 1948. Mae'n byw yng Ngheredigion.

Dechreuodd beintio'n broffesiynol ar ôl symud i Gymru yn 1976.

Etholwyd i'r AFG 1978.

"Mae fy mhaentiadau i i gyd yn cael eu gwneud ar leoliad, ac mae pob darn o waith yn cymryd sawl diwrnod i'w gwblhau. Ysguboriau ffermydd, stablau, cytiau gardd a bythynnod, ynghyd â'r amrywiaeth aruthrol o betheuach a geir ynddynt, maent i gyd yn ysbrydoli. Mae dulliau traddodiadol y cyfrwng dyfrlliw yn agwedd bwysig o'm gwaith. Mae'r dulliau hyn yn gweddu i'r testunau amrywiol ac maent hefyd yn ymarferol i'w defnyddio allan ar leoliad."



*Bizzie Lizzies Watercolour/Dyfrliw*



## Mavis Blackburn

Lives in West Kirby.

Studied at Liverpool College of Art.

Elected to RCA 1949.

"I painted abstract works in the late 1960s and 1970s but reverted to my former, basically Impressionist style on retirement in the 1980s. My early works were in oil and later works executed in acrylic paint. Subjects include landscapes, buildings, plants and a few portraits."

---

Mae'n byw yn West Kirby.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Lerpwl.

Etholwyd i'r AFG 1949.

"Yn yr 1960au a'r 1970au hwyr roeddwn yn peintio'n haniaethol, ond ar ôl ymddeol yn yr 1980au newidiais yn ôl i'm hen arddull, sef arddull Argraffiadol yn y bôn. Mewn olew yr oeddwn yn peintio fy ngwaith cynnar gan droi'n ddiweddarach at baent acrylig. Ymysg fy nhestunau mae tirweddau, adeiladau, planhigion a rhai portreadau."



*Potted Plants*
*Acrylic/Acrylig*

## Denis Bowen

Born South Africa, 1921 but spent formative years in the North of England. Lives in London.

Studied at Huddersfield School of Art and the Royal College of Art following war service in the Royal Navy.

Elected to RCA 1994.

Denis Bowen was an influential gallery director and exhibition organiser at the New Vision Centre Gallery during the 1950s and 1960s. He is an innovative abstract artist particularly committed to informal or tachist abstract art.


---

Ganed yn Ne Affrica, 1921 ond treuliodd flynyddoedd o'i fagwraeth yng Ngogledd Lloegr. Mae'n byw yn Llundain.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Huddersfield a'r Coleg Celf Brenhinol ar ôl gwasanaethu yn y Llynges Frenhinol yn ystod y rhyfel.

Etholwyd i'r AFG 1994.

Roedd Denis Bowen yn gyfarwyddwr oriel a threfnydd arddangosfeydd dylanwadol yn y New Vision Centre Gallery yn yr 1950au a'r 1960au. Mae'n arlunydd haniaethol arloesol sy'n canolbwyntio'n arbennig ar gelfyddyd anffurfiol neu dasiaidd.



*Pennine Series 2000*
*Oil/Olew*



## Keith Bowen

Born Wrexham, 1950. Lives in Lanark, Scotland.

Studied graphic design at Manchester Polytechnic.

Elected to RCA 1992.

Keith Bowen exhibits regularly at the Richard Hagen Gallery, Worcestershire and the Open Eye Gallery in Edinburgh.

"I have been kicking around the Welsh hills for over twenty-five years, and from the early days in flappy wet tents, the place has had a tremendous visual appeal. You don't have to choose the subject, for in a way it calls you; but you must have an affection for it, and feel a sensitivity towards it."

---

Ganed yn Wrecsam, 1950. Mae'n byw yn Lanark, yr Alban.

Astudiodd ddylunio graffig yn Ngholeg Polytechnig Manceinion.


Etholwyd i'r AFG 1992.

Mae Keith Bowen yn arddangos ei waith yn rheolaidd yn y Richard Hagen Gallery, Swydd Gaerwrangon a'r Open Eye Gallery yng Nghaeredin.

"Rwyf wedi bod yn crwydro mynyddoedd Cymru ers dros bum mlynedd ar hugain, ac o'r dyddiau cynnar hynny mewn pebyll gwlyb, drafftiog, mae'r lle wedi apelio'n aruthrol ataf yn weledol. Does dim rhaid i chi ddewis y testun, oherwydd mewn ffordd mae'r testun yn eich galw chi; ond rhaid i chi fod yn hoff ohono, a theimlo rhyw sensitifrwydd tuag ato."



*Kedge*
*Wood/Coed*



## Paul Bowen

Born in Colwyn Bay, 1951. Lives in Massachusetts, USA.

Studied at Newport College of Art and Maryland Institute, College of Art, Baltimore.

Elected to the RCA 2001.

Images in Paul Bowen's sculpture and drawing are dominated, first by things and places from his childhood in North Wales, and later by those from his second home in Provincetown on Cape Cod, another "land's end". They are simple and direct echoes of his surroundings: fishing boats and gear; driftwood and scraps of lumber; the powerful thrust of rock jetties; the undulating curves of windswept dunes; peeling whitewashed clapboard and cedar shingle bleached gray by sun and salt.

---

Ganed ym Mae Colwyn, 1951. Mae'n byw yn Massachusetts, UDA

Astudiodd yng Ngholeg Celf Casnewydd a Sefydliad Maryland, y Coleg Celf, Baltimore

Etholwyd i'r AFG 2001

Mae'r delweddau yng ngherfluniau a lluniau Paul Bowen wedi eu hysbrydoli yn gyntaf gan bethau a llefydd o'i blentyndod yng Ngogledd Cymru ac yn ddiweddarach gan bethau a llefydd yn ei ail gartref yn Provincetown ar Cape Cod, "pen draw'r byd" arall. Maent yn adleisiau syml ac uniongyrchol o'i amgylchedd: cychod ac offer pysgota, broc môr a sgrapiau o goed, glanfeydd carreg yn hyrddio'n nerthol i'r môr, siâp tonnog twyni tywod sy'n sefyll yn nannedd y gwynt; estyll gwyngalch a'r lliw'n pilio oddi arnynt ac estyll cedrwydd wedi troi'n llwyd yn yr haul a'r halen.



*Yr Aran and Llyn Gwynant*
*Pastel*



## Ann Bridges

Born London, 1960. Lives in Ruthin, Denbighshire.

Studied Illustration and Printmaking at North Wales College of Art and Design, Wrexham.

Elected to RCA 2000.

"Working from sketchbooks I use printmaking techniques to create an illusion of depth and movement to my drawings. Shapes are simplified and developed into vibrantly coloured monoprints."

---

Ganed yn Llundain, 1960. Mae'n byw yn Rhuthun, Sir Ddinbych.

Astudiodd Ddarlunio a Chreu Printiau yng Ngholeg Celf a Dylunio Gogledd Cymru, Wrecsam.

Etholwyd i'r AFG 2000.

"Gan weithio o lyfrau braslunio rwy'n defnyddio technegau creu printiau i greu'r argraff o ddyfnder a symud yn fy lluniau. Rwy'n symleiddio siapiau a'u datblygu'n brintiau unigol llachar eu lliw."



*Aquarium*
*Monoprint*

## Mike Briscoe

Born in 1960. Lives in Colwyn Bay.

Elected to RCA 1998.

"The images I choose are very important in that they represent the felt emotion, and often relate to my close environment. They are an awareness and consciousness of place or an event, often an experienced moment. The location acts as a backdrop to memories and more immediate emotions and recent experiences"

---

Ganed yn 1960. Mae'n byw ym Mae Colwyn.

Etholwyd i'r AFG 1998.

"Mae'r delweddau yr wyf yn eu dewis yn bwysig iawn am eu bod yn cynrychioli'r emosiwn yr wyf yn ei deimlo, ac mae a wnelont yn aml â'r amgylchedd o'm cwmpas. Maent yn cyfleu a chynrychioli lle neu ddigwyddiad, ennyd o brofiad yn aml. Mae'r lleoliad yn gweithredu fel cefndir i atgofion ac emosiynau a deimlir ar y pryd a phrofiadau diweddar."



*Day out pool side*
*Oil/Olew*



## Malcolm Brookes

Lives in Worcestershire.

Studied Fine Art at Birmingham College of Art and Crafts.

Vice President of the Royal Birmingham Society of Artists and Treasurer of the Birmingham Pastel Society.

Elected to RCA 1990.

"I have never settled for a prolonged period to a particular style because the act of painting for me is about exploring various means of distilling the essence of a subject as affected by mood or line of enquiry at the time. My work has varied over the years between the wildly romantic and the calmly structured."

---

Mae'n byw yn Swydd Gaerwrangon.

Astudiodd Gelfyddyd Gain yng Ngholeg Celf a Chrefft Birmingham.

Is-lywydd Cymdeithas Frenhinol Arlunwyr Birmingham a Thrysorydd Cymdeithas Arlunwyr Pastel Birmingham.

Etholwyd i'r AFG 1990.

"Nid wyf erioed wedi defnyddio un arddull arbennig am gyfnod hir oherwydd i mi mae peintio yn golygu archwilio gwahanol ffyrdd o grisialu hanfod testun, fel y mae fy hwyliau neu'r trywydd ymchwilio ar y pryd yn effeithio arno. Dros y blynyddoedd mae fy ngwaith wedi pendilio rhwng gwaith hynod ramantaidd a gwaith â strwythur tawel, trefnus iddo."



*Hanover Street, Monkey Puzzle*
*Oil/Olew*

## David Carpanini



Born in Glamorgan, 1946. Lives in Leamington Spa, Warwickshire.

Studied at Gloucestershire College of Art; the Royal College of Art and the University of Reading.

President of the Royal Society of Painter-Printmakers. Member of the Royal West of England Academy; the Royal Society of British Artists; the New English Arts Club and an Honorary Member of the Royal Watercolour Society.

Elected to RCA 1992.

"David Carpanini's drawings, paintings and etchings are almost entirely devoted to the presentation of the industrial scene of South Wales. Lonely figures, bleak hills, ramshackle backyards, perching terraces of houses, dominating chapels and ragged roadside sheep are the images to which he is faithful and to which he attributes the development of his creative imagination."

---

Ganed ym Morgannwg, 1946. Mae'n byw yn Leamington Spa, Swydd Warwick.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Swydd Gaerloyw; y Coleg Celf Brenhinol a Phrifysgol Reading.

Llywydd Cymdeithas Frenhinol yr Arlunwyr-Gwneuthurwyr Printiau. Aelod o Academi Frenhinol Gorllewin Lloegr; Cymdeithas Frenhinol Arlunwyr Prydain; y New English Arts Club ac Aelod Anrhydeddus o Gymdeithas Frenhinol yr Arlunwyr Dyfrlliw.

Etholwyd i'r AFG 1992.

"Mae lluniau, paentiadau ac ysgythriadau David Carpanini i gyd bron yn cyfleu De Cymru ddiwydiannol. Pobl ar eu pen eu hunain, bryniau llwm, iardiau cefn blêr, rhesi o dai, capeli mawr a defaid heb raen arnynt wrth ymyl y ffordd – dyma'r delweddau y mae'n driw iddynt a chred mai'r rhain sydd wedi datblygu ei ddychymyg creadigol."



*And far away the silence was mine, Acrylic/Acrylig*

## Jane Carpanini



Born in Bedfordshire, 1949. Lives in Leamington Spa, Warwickshire.

Studied at Luton College of Technology; Brighton College of Art and the University of Reading.

Member of the Royal Watercolour Society and the Royal West of England Academy.

Elected to RCA 1992.

Jane Carpanini has established a reputation for expansively composed and meticulous watercolours of the towns and villages, mountains and coastline of North Wales. In some instances her enthusiasm for backyards and modest dwellings juxtaposed with mountains and castles provide a historical document of Welsh vernacular architecture.

---

Ganed yn Swydd Bedford, 1949. Mae'n byw yn Leamington Spa, Swydd Warwick.

Astudiodd yng Ngholeg Technoleg Luton; Coleg Celf Brighton a Phrifysgol Reading.

Aelod o Gymdeithas Frenhinol yr Arlunwyr Dyfrlliw ac Academi Frenhinol Gorllewin Lloegr.

Etholwyd i'r AFG 1992.

Mae Jane Carpanini wedi gwneud enw iddi ei hun am ei dyfrlliwiau eang a hynod fanwl o drefi a phentrefi, mynyddoedd ac arfordir Gogledd Cymru. Mewn rhai achosion mae ei hoffter o iardiau cefn a thai bychain, wedi'u gwrthgyferbynnu â mynyddoedd a chestyll, yn rhoi i ni ddogfen hanesyddol ar bensaernïaeth frodorol Cymru.



*Spring moon, Caernarfon*
*Watercolour/Dyfrliw*



## Leo Carroll

Born in 1933. Lives in Christleton, Chester.

Largely self-taught.

Elected to RCA 1980.

"My earlier paintings have always attempted to convey the visual image using a personal colour interpretation without allowing too great an intrusion of any detailed drawing. They have largely evolved over the years towards an abstract resolution and it is this aspect of painting that now is the focal point of my interest."

---

Ganed yn 1933. Mae'n byw yn Christleton, Caer.

Wedi ei ddysgu ei hun yn bennaf.

Etholwyd i'r AFG 1980.

"Yn fy mhaentiadau cynnar roeddwn bob amser yn ceisio cyfleu'r ddelwedd weledol drwy ddehongliad lliw personol, heb ganiatáu i unrhyw luniadu manwl ymyrryd yn ormodol. Dros y blynyddoedd maent wedi esblygu'n helaeth tuag at arddull haniaethol, a'r agwedd hon o beintio sy'n mynd â'm bryd erbyn hyn."



*Top floor flat*
*Oil/Olew*



## David Chapman

Born North Wales, 1964. Works from his studio at Llangelynnin Church, Rowen, Conwy.

Studied Fine Art Sculpture at Coventry; Post Graduate at the Royal College of Art.

Elected to RCA 1996.

"I see my art as an adventurous journey, one which seeks to explore the old to discover the new. A lifelong passion for ancient artefacts and past landscapes has expressed itself in archaeological research of the area and led to my discovery of the earliest known copper/bronze working site in Great Britain dated to the Bronze Age (1580BC). This site represents the beginnings of a British bronze casting tradition which I still use and continue to develop in my own work."

---

Ganed yng Ngogledd Cymru, 1964. Mae'n gweithio o'i stiwdio yn Eglwys Llangelynnin, Rowen, Conwy.

Astudiodd Gerflunwaith Celfyddyd Gain yn Coventry; Myfyriwr ôl-radd yn y Coleg Celf Brenhinol.

Etholwyd i'r AFG 1996.

"Rwy'n edrych ar fy nghelfyddyd fel taith anturus, un sy'n ceisio archwilio'r hen er mwyn darganfod y newydd. Rwyf wedi gwirioni erioed ar arteffactau hynafol a thirweddau'r gorffennol a mynegodd hynny ei hun mewn ymchwil archeolegol o'r ardal. Drwy'r ymchwil honno y darganfyddais y safle gweithio copr/efydd cynharaf y gwyddom amdano ym Mhrydain Fawr, yn dyddio'n ôl i'r Oes Efydd (1580 Cyn Crist). Mae'r safle hwn yn cynrychioli dechreuad y traddodiad castio efydd ym Mhrydain, traddodiad yr wyf yn dal i'w ddefnyddio a'i ddatblygu yn fy ngwaith fy hun."



*Heroic Head*
*Bronze/Efydd*



## Pat Clarke

Born in 1940. Works from her studio at Oriel y Ddraig, Blaenau Ffestiniog.

Studied at Reigate Art School, Surrey.

Member of the National Society of Painters, Sculptors and Printmakers; Free Painters and Sculptors and the Watercolour Society of Wales.

Elected to RCA 1999.

"My work has different aspects. With landscape painting I work directly outside, mainly in the Snowdonia mountains. I hope to convey inwardness and my feeling for the intensity of life and movement in everything living and growing. My abstract work, painted in the studio is more meditative and reflective, relating often to personal experiences, but sometimes the two converge and landscape becomes allegory."

---

Ganed yn 1940. Mae'n gweithio o'i stiwdio yn Oriel y Ddraig, Blaenau Ffestiniog.

Astudiodd yn Ysgol Gelf Reigate, Surrey.

Aelod o Gymdeithas Genedlaethol yr Arlunwyr, Cerflunwyr a Gwneuthurwyr Printiau; o'r Arlunwyr Rhydd a'r Cerflunwyr ac o Gymdeithas Dyfrlliw Cymru.

Etholwyd i'r AFG 1999.

"Mae yna wahanol agweddau i'm gwaith. Wrth beintio tirluniau rwy'n gweithio'n uniongyrchol yn yr awyr agored, yn bennaf ym mynyddoedd Eryri. Gobeithiaf gyfleu anian a'm hymateb i i'r angerdd a'r symud sydd mor gryf ym mhopeth sy'n fyw ac yn tyfu. Mae fy ngwaith haniaethol, yr wyf yn ei beintio yn y stiwdio, yn fwy myfyriol a meddylgar, yn ymwneud yn aml â phrofiadau personol, ond weithiau mae'r ddwy agwedd yn dod ynghyd a bydd y tirlun yn troi'n alegori."



*Within*
*Watercolour & Mixed Media / Dyfrliw & Cyfrwng Cymysg*



## Maurice Cockrill

Born Hartlepool, 1936. Lives in London.

Studied at Wrexham School of Art and the University of Reading.

Member of the Royal Academy.

Elected to RCA 2001.

"The anatomy of the landscape - the River estuary, fields and woods, clouds, hills and mountains beyond is forever in flux, due not simply to the capriciousness of light and weather, but also in regard to whatever I, the artist, bring to it and hope to find there. Matisse said, 'Exactitude is not truth'. My pictures are the landscape transfigured - separate utterances, complete-in-themselves although partial, that grope towards an understanding and expression of the spirit of this piece of the world that has held poetic meaning for me for over half a century."

---

Ganed yn Hartlepool, 1936. Mae'n byw yn Llundain.

Astudiodd yn Ysgol Gelf Wrecsam a Phrifysgol Reading.

Aelod o'r Academi Frenhinol.

Etholwyd i'r AFG 2001.

"Mae anatomi'r tirwedd – moryd yr Afon, caeau a choed, cymylau, bryniau a'r mynyddoedd tu hwnt iddynt – yn newid yn barhaus, nid dim ond yn ôl mympwy'r golau a'r tywydd, ond hefyd o ran yr hyn yr wyf fi, yr arlunydd, yn ei gyfrannu iddo ac yn gobeithio ei ddarganfod ynddo. Dywedodd Matisse, 'Nid gwirionedd mo manyldeb'. Tirwedd wedi'i weddnewid a geir yn fy lluniau i – sylwadau ar wahân, yn gyflawn ynddynt eu hunain er nad ydynt ond yn rhannol, sy'n ymbalfalu i ddeall a mynegi ysbryd y darn hwn o'r byd sydd wedi cyfleu ystyr barddonol i mi ers dros hanner canrif."



*River Passage*
*Oil/Olew*

## Howard Coles



Born in Cardiff. Has lived on the Lleyn Peninsula since 1991.

Studied at Cardiff College of Art.

Elected to RCA 2001.

"I came to painting via training in sculpture at Cardiff and in Printmaking while teaching in Singapore. Both left their mark. Techniques and processes crossed boundaries and eased transitions between mark making and form producing work. I try, so far as I am able, to bring another layer of interpretation to the paintings of the coastline of my native Wales. Translating the timeless natural elements of an area which still wears the traumas of landscape born out of fire and cataclysmic upheavals is now ingrained."

---

Ganed yng Nghaerdydd. Mae wedi byw ar Benrhyn Llyn er 1991.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Caerdydd.

Etholwyd i'r AFG 2001.

"Drwy fy hyfforddiant mewn cerflunwaith yng Nghaerdydd ac mewn Creu Printiau tra'n dysgu yn Singapôr y troais at beintio. Gadawodd y naill a'r llall ei ôl arnaf. Croesodd technegau a phrosesau ffiniau gan hwyluso'r trawsnewid rhwng ffurfiau. Cyn belled ag y medraf rwy'n ceisio ychwanegu haen arall o ddehongli i'r peintiadau o arfordir Cymru, gwlad fy ngeni. Mae trosi natur dragwyddol elfennau ardal sy'n dal i ddangos creithiau tirwedd a aned drwy dân a therfysg cataclysmig yn dod yn reddfol i mi erbyn hyn."



*Glaciers Edge, Cwmorthin*
*Mixed/Cymysg*

## Joan Connell



Born Norfolk, 1925. Lives on Anglesey.

Studied at Edinburgh College of Art and Edinburgh University.

Elected to RCA 1996.

Joan Connell worked from 1960-1969 in Boston, Massachusetts as an art therapist in two large state Psychiatric hospitals. From 1973-1980 she taught Creative Arts at the Normal College Bangor. She has also lectured on History of Art for Edinburgh University's extra-mural department and for WEA Bangor from 1980-1989.

---

Ganed yn Norfolk, 1925. Mae'n byw ar Ynys Môn.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Caeredin a Phrifysgol Caeredin.

Etholwyd i'r AFG 1996.

Bu Joan Connell yn gweithio rhwng 1960 ac 1969 yn Boston, Massachusetts fel therapydd cerdd mewn dau ysbyty Seiciatrig gwladol mawr. Rhwng 1973 ac 1980 bu'n dysgu Celfyddydau Creadigol yn y Coleg Normal, Bangor. Mae hefyd wedi darlithio ar Hanes celf i adran astudiaethau allanol Prifysgol Caeredin ac i Gymdeithas Addysg y Gweithwyr ym Mangor rhwng 1980 ac 1989.



*Delphiniums & Rose*
*Watercolour & Acrylic / Dyfrliw & Acrylig*

## Jane Corsellis



Lives in London and Cardiff.

Studied at the Byam Shaw School of Art in London.

Elected to the RCA 2002.

"I paint in Italy and France, and have made a recent return trip to India, but when I am home I like to paint in London and in Pembrokeshire, S Wales.

I painted this image late summer. I liked the 'bleached' light and silvery reflections"

---

Mae'n byw yn Llundain a Chaerdydd.

Astudiodd yn Ysgol Gelf Bram Shaw yn Llundain.

Etholwyd i'r AFG 2002.

"Rwyf yn peintio yn yr Eidal a Ffrainc, ac wedi mynd ar daith yn ôl i India yn ddiweddar, ond pan fyddaf gartref rwy'n hoffi peintio yn Llundain a Sir Benfro, yn Ne Cymru. Peintiais y llun hwn ar ddiwedd yr haf. Roeddwn yn hoffi'r golau gwan a'r wawr lliw arian ar bob adlewyrchiad."



*Evening Beach, Pwllgwaelod, Pembrokeshire*
*Oil/Olew*

## Alistair Crawford



Born in Fraserburgh, Aberdeenshire, 1945. Has lived in Aberystwyth, Ceredigion since 1974.

Studied at the Glasgow School of Art.

Honorary Member of the Royal Society of Painter - Printmakers.

Elected to RCA 1993.

"Ideas are more important than producing a recognisable visual identity based on self. They are derived from the spirit of place and the memory of intensively observed locations and people, their architecture and landscape. My art practice runs along side my art history publications. Ideas are related to specific techniques, including drawing and painting, printmaking and photography, in both abstract and representation, including figurative."

---

Ganed yn Fraserburgh, Swydd Aberdeen, 1945. Mae wedi byw yn Aberystwyth, Ceredigion er 1974.

Astudiodd yn Ysgol Gelf Glasgow.

Aelod Anrhydeddus o Gymdeithas Frenhinol yr Arlunwyr-Gwneuthurwyr Printiau.

Etholwyd i'r AFG 1993.

"Mae syniadau yn bwysicach na chynhyrchu hunaniaeth weledol hawdd ei hadnabod, wedi ei seilio arnoch eich hun. Maent yn deillio o ysbryd lle ac o'ch cof am fannau a phobl, eu pensaernïaeth a'u tirwedd, y sylwyd yn fanwl iawn arnynt. Mae'r gwaith celf a gynhyrchaf yn rhedeg ochr yn ochr â'm cyhoeddiadau ar hanes celf. Caiff syniadau eu perthnasu i dechnegau penodol, yn cynnwys tynnu llun a pheintio, creu printiau a ffotograffiaeth, ar ffurf haniaethol a chynrychiadol, a chan gynnwys gwaith ffigurol."



*Shipwreck II (The Rosie Probert)*
*Oil/Olew*



## Denis Curry

Has lived in Pembrokeshire since 1976.

Studied at the Slade School of Fine Art, London.

Elected to RCA 1992.

"Is the kinematics of the swan's flight the same as the mathematical model which explains it?"

---

Mae wedi byw yn Sir Benfro er 1976.

Astudiodd yn Ysgol Celfyddyd Gain Slade, Llundain.

Etholwyd i'r AFG 1992.

"Ai'r un yw cinemateg ehediad yr alarch â'r model mathemategol sy'n ei esbonio?"



*Chrysaetos*
*Bronze/Efydd*



## Ivor Davies

Born in 1935. Lives in Penarth, Cardiff.

Studied at Cardiff College of Art; Swansea College of Art; University of Lausanne and Edinburgh University.

Elected to RCA 1992. Elected Vice President of the RCA in 1995.

Ivor Davies is a painter who has proved the extremes of the art spectrum from multi-media and destruction in art during the 1960s, to academic art history. He has held over fifty one-man exhibitions and has travelled and exhibited widely, his work being included in public and private collections all over the world.

As an artist he participates in the struggle against the destruction of Welsh language and communities.

---

Ganed yn 1935. Mae'n byw ym Mhenarth, Caerdydd.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Caerdydd; Coleg Celf Abertawe; Prifysgol Lausanne a Phrifysgol Caeredin.

Etholwyd i'r AFG 1992. Etholwyd yn Is-lywydd yr AFG yn 1995.

Mae Ivor Davies yn arlunydd sydd wedi profi pegynau eithaf y sbectrwm celf, o waith amlgyfrwng a distrywioldeb mewn celf yn yr 1960au i hanes celf academaidd. Mae wedi cynnal dros hanner cant o arddangosfeydd ar ei ben ei hun ac wedi teithio ac arddangos yn eang, ac mae ei waith wedi ei gynnwys mewn casgliadau cyhoeddus a phreifat ledled y byd.

Fel arlunydd mae'n cyfrannu tuag at y frwydr yn erbyn difa'r iaith a'r cymunedau Cymraeg.



*Yn Danllwy Fawr Anorffen II*
*Mixed/Cymysg*



## Ogwyn Davies

Born in Trebanos, Swansea Valley, 1925. Lives in Tregaron, Ceredigion.

Studied at the Swansea School of Art.

Elected to RCA 1994.

"I find farm buildings interest me greatly. Very often, the human association of several generations can be seen in the barns and sheds and a sense of poetry seems ever present. They record so graphically the passing of time as it leaves its marks on the walls. For decades many Welsh walls have become part of the world of protest and my interest in walls and marks have resulted in works reflecting this. The use of the words of our National Anthem came about I think after regular attendance at the Arms Park in Cardiff and hearing choirs of over fifty thousand voices singing the words so movingly".


---

Ganed yn Nhrebannws, Cwm Tawe, 1925. Mae'n byw yn Nhregaron, Ceredigion.

Astudiodd yn Ysgol Gelf Abertawe.

Etholwyd i'r AFG 1994.

"Mae adeiladau fferm yn fy niddori'n fawr. Yn aml iawn y mae cysylltiad dynol llawer cenhedlaeth i'w weld mewn ysguboriau a siediau ac ymddengys fel petai rhyw ymdeimlad o farddoniaeth yn fythol bresennol yno. Cofnodant mor ddarluniadol dreigl amser yn yr olion ar y muriau. Am ddegawdau, aeth llawer o furiau Cymreig yn rhan o fyd protest ac y mae fy niddordeb mewn muriau ac olion wedi cynhyrchu gweithiau sy'n adlewyrchu hyn. Defnyddiais eiriau ein Hanthem Genedlaethol, 'rwy'n meddwl, ar ôl mynychu Parc yr Arfau yng Nghaerdydd yn gyson a gwrando ar gorau o dros hanner can mil o leisiau yn canu'r geiriau mor wefreiddiol".



*Ysgubor Hir*
*Mixed Media/Cyfrwng Cymysg*



## George Drought

Born in St Helens, Merseyside, 1940.

Studied at St Helens School of Art, Liverpool College of Art and the Central School of Arts and Crafts, London

Elected to RCA 1975

"From being the dedicated portrayer and recorder of the crumbling remains of mankind, I have in latter years gradually altered course away from ruinous decrepitude and have become a committed depicter of green i.e. I now paint more woodlands than walls".

---

Ganed yn St Helens, Glannau Mersi, 1940.

Astudiodd yn Ysgol Gelf St Helens, Coleg Celf Lerpwl a'r Ysgol Celfyddydau a Chrefftau Ganolog, Llundain

Etholwyd i'r AFG 1975

"O bortreadu a chofnodi strwythurau sy'n mynd â'u pen iddynt, a adewir ar ei hôl gan y ddynoliaeth, wrth i'r blynyddoedd fynd heibio rwyf wedi newid cyfeiriad yn raddol oddi wrth adfeilion trist nes yr wyf bellach yn ddarluniwr gwyrddni brwd h.y. rwy'n peintio mwy o goetiroedd nag a waliau erbyn hyn".



*Field Corner*
*Watercolour/Dyfrliw*



## Malcolm Edwards

Born in 1934. Lives in Halkyn, Flintshire.

Studied at Liverpool University.

Elected to RCA 1994.

"Wild and mountainous places are the main sources of my inspiration. I am fascinated by the textures of buildings and the landscape riven by the corrosive forces of wind and rain and with the fickle changes of light created on the faceted surfaces".

---

Ganed yn 1934. Mae'n byw yn Helygain, Sir y Fflint.

Astudiodd ym Mhrifysgol Lerpwl.

Etholwyd i'r AFG 1994.

"Mannau gwyllt a mynyddig yw'r prif ffynonellau sy'n fy ysbrydoli i. Fe'm cyfareddir gan wead adeiladau a'r tirwedd wedi'i rwygo gan rymoedd difäol y gwynt a'r glaw ac oriogrwydd y golau'n newid ar y gwahanol wynebau."



*Tai Newyddion, Nant Ffrancon*
*Watercolour/Dyfrliw*



## Ken Elias

Born in Glynneath, South Wales, 1944.

Studied at Cardiff College of Art; Newport College of Art and Design and the University of Wales Institute College, Cardiff.

A Member of the Welsh Group.

Elected to RCA 1997.

"It appears that I am attempting to create something solid and substantial out of memory, creating a kind of geometry of my earlier life. My paintings have always had something to say; a story to tell, but during recent years this narrative has grown more personal. Remembered images from childhood have developed into recurring images."

---

Ganed yn Nglyn-nedd, De Cymru, 1944.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Caerdydd, Coleg Celf a Dylunio Casnewydd ac Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Aelod o'r Grŵp Cymreig.

Etholwyd i'r AFG 1997.

"Mae'n ymddangos fel pe bawn yn ceisio creu rhywbeth soled a sylweddol o'm cof, gan greu rhyw fath o geometreg o'm bywyd pan oeddwn yn iau. Peintiadau sydd â rhywbeth i'w ddweud fu fy mheintiadau i erioed – mae ganddynt stori i'w hadrodd, ond yn ddiweddar mae'r naratif hwn wedi mynd yn fwy personol. Mae delweddau a gofiaf o'm plentyndod wedi datblygu'n ddelweddau sy'n ailymddangos dro ar ôl tro."



*Considering Boundaries*
*Acrylic/Acrylig*



## Ray Evans

Lives in Salisbury, Wiltshire.

Studied at Manchester College of Art and Heatherleys in London.

Elected to RCA 1998.

His paintings explore familiar subjects, the townscape, landscape and foreshore, often the residents and fishermen going quietly about their business. There is a strong feel for colour and his natural feel for draughtsmanship, composition and design are ever present. The tonal control gives the paintings a restrained but joyous quality.

---

Mae'n byw yn Salisbury, Wiltshire.


Astudiodd yng Ngholeg Celf Manceinion a Heatherleys yn Llundain.

Etholwyd i'r AFG 1998.

Mae ei baentiadau yn edrych ar destunau cyfarwydd, y treflun, y tirwedd a'r blaendraeth ac, yn aml, y trigolion a physgotwyr yn mynd o gwmpas eu gorchwyl yn dawel. Mae yna ymdeimlad cryf tuag at liw ac mae ei ddawn tynnu llun, cyfansoddi a dylunio yn amlwg bob amser. Mae'r rheolaeth arlliwiol yn rhoi cynildeb a rhyw elfen orfoleddus i'r paentiadau.



*Tenby, Pembrokeshire*
*Acrylic/Acrylig*



## Anthony Eyton

Born in 1923. Lives in London.

Studied at Camberwell School of Art and at the British School in Rome

Member of the Royal Academy; Royal West of England Academy and the Royal Watercolour Society

Elected to RCA 1993.

Anthony Eyton was a John Moores Competition prize winner in 1972 and won the first prize in the Second British International Drawing Biennale in 1975. He was elected to the Royal Academy in 1976 and in 1981 won the Charles Wollaston Prize at the Summer Exhibition. Public collections include the Tate Gallery, the Imperial War Museum and the Contemporary Arts Society. Resident artist at the Eden Project in Cornwall since June 1999.

---

Ganed yn 1923. Mae'n byw yn Llundain.

Astudiodd yn Ysgol Gelf Camberwell a'r Ysgol Brydeinig yn Rhufain.

Aelod o'r Academi Frenhinol, Academi Frenhinol Gorllewin Lloegr a Chymdeithas Frenhinol yr Arlunwyr Dyfrlliw.

Etholwyd i'r AFG 1993.

Enillodd Anthony Eyton wobr yng Nghystadleuaeth John Moores yn 1972 ac enillodd y wobr gyntaf yn Ail Arddangosfa Luniau Eilflwydd Ryngwladol Prydain yn 1975. Fe'i hetholwyd i'r Academi Frenhinol yn 1976 ac yn 1981 enillodd Wobr Charles Wollaston yn Arddangosfa'r Haf. Ymysg y casgliadau cyhoeddus o'i waith mae'r Tate Gallery, yr Imperial War Museum a'r Gymdeithas Celfyddydau Cyfoes. Bu'n arlunydd preswyl yr Eden Project yng Nghernyw er Mehefin 1999.



*Mantlepiece*
*Oil/Olew*



## Edwin Forrest

Born in Tranmere, Birkenhead, 1918. Has lived in the Conwy Valley since 1978.

Studied at the Laird School of Art and Liverpool College of Art.

Elected to RCA 1958.

A self taught figurative painter, Edwin Forrest follows in the British tradition of landscape painting. One of the greatest influences on his work has been the constantly changing light and skies above the industrial landscape of the Wirral. Edwin Forrest now enthusiastically paints in North Wales and Cornwall.

---

Ganed yn Tranmere, Penbedw, 1918. Mae wedi byw yn Nyffryn Conwy er 1978.


Astudiodd yn Ysgol Gelf Laird a Choleg Celf Lerpwl.

Etholwyd i'r AFG 1958.

Yn arlunydd ffigurol sydd wedi ei ddysgu ei hun, mae Edwin Forrest yn dilyn yn nhraddodiad tirlunwyr Prydain. Un o'r dylanwadau pennaf ar ei waith yw'r newidiadau parhaus yn y golau a'r awyr uwchlaw tirwedd diwydiannol Cilgwri. Erbyn hyn mae Edwin Forrest yn peintio'n frwdfrydig yng Ngogledd Cymru a Chernyw.



*Sunset over the Straits*
*Oil/Olew*



## Valerie Ganz

Lives in Swansea.

Studied painting, sculpture and stained glass at Swansea College of Art.

Elected to RCA 1996.

As her interest in the landscape of South Wales grew, her attention was drawn to the landscape of industrial areas and, in particular, the mining industry. "People in their working lives, whether in a deep mine, in the theatre or in a jazz club is what fascinates me and makes me want to study them and try to say something about their achievements."

---

Mae'n byw yn Abertawe.

Astudiodd beintio, cerflunwaith a gwydr lliw yng Ngholeg Celf Abertawe.

Etholwyd i'r AFG 1996.

Fel y tyfai ei diddordeb yn nhirwedd De Cymru, denwyd ei sylw at dirwedd ardaloedd diwydiannol ac, yn arbennig, y diwydiant glo. "Pobl wrth eu gwaith, boed hynny mewn pwll glo, yn y theatr neu mewn clwb jazz, yw'r hyn sydd o ddiddordeb i mi. Maent yn codi awydd arnaf i'w hastudio a cheisio dweud rhywbeth am yr hyn y maent wedi'i gyflawni."



*Coalface Break*
*Mixed/Cymysg*

## Keith Gardner



Born Liverpool, 1933.

Studied at Liverpool Art School and the Laird School of Art, Birkenhead.

Elected to RCA 1977.

A full time painter from 1975-1985 followed by 13 years at the Williamson Art Gallery, Birkenhead. Keith Gardner specialises in small "on the spot" oil panels painted around North Wales and the Wirral.

---

Ganed yn Lerpwl, 1933.

Astudiodd yn Ysgol Gelf Lerpwl ac Ysgol Gelf Laird, Penbedw.

Etholwyd i'r AFG 1977.

Arlunydd amser llawn rhwng 1975 ac 1985, yna treuliodd 13 blynedd yn y Williamson Art Gallery, Penbedw. Mae Keith Gardner yn arbenigo mewn panelau olew bach "yn y fan a'r lle" y mae'n eu peintio o amgylch Gogledd Cymru a Chilgwri.



*Breakers Porthmeor St. Ives*
*Oil/Olew*

## Tony Goble



Born in 1946. Lives in Cardiff.

Studied at Wrexham School of Art.

Elected to RCA 1977.

Tony Goble is regarded as one of Wales' most colourful artists, whose narrative, poetic, paintings explore a world of magic and mystery. His paintings are a 'personal perspective' like 'journeys' travelling towards some sort revelation. His compositions delight and amuse us with their visual wit.

---

Ganed 1946. Mae'n byw yng Nghaerdydd

Astudiodd yn Ysgol Gelf Wrecsam


Etholwyd i'r AFG 1977

Ystyrir Tony Goble yn un o artistiaid mwyaf lliwgar Cymru. Mae ei baentiadau hanesiol, barddol yn archwilio byd llawn cyfaredd a dirgelwch. Mae ei baentiadau yn 'safbwynt personol', fel 'teithiau' ar y ffordd tuag at ryw fath o ddatguddiad. Mae ei gyfansoddiadau yn ein swyno a'n diddanu gyda'u ffraethineb gweledol.



*The Last Dance (detail)*
*Oil/Olew*

## Keith Grant



Born Liverpool, 1930. Lives in Norway.

Studied at Willesden School of Art, London and the Royal College of Art, London.

Elected to RCA 2001.

"I paint elemental landscape, especially the north. I attempt to realise through my portrayals of the Arctic and Sub-Arctic that dimension of landscape that is an intimation of what is beyond physical experience. The remoteness of regions of the North creates in me a feeling of extra-terrestrial awareness and I try to express these feelings in paintings of the night sky often including imagery based on the Aurora Borealis or Northern Lights".

Chosen to inaugurate the British Antarctic Survey's Artists and Writers programme from December 2001 - February 2002

---

Ganed yn Lerpwl, 1930. Mae'n byw yn Norwy.

Astudiodd yn Ysgol Gelf Willesden, Llundain a'r Coleg Celf Brenhinol, Llundain.

Etholwyd i'r AFG 2001.

"Rwy'n peintio tirwedd elfennol, yn enwedig yn y gogledd. Drwy fy mhortreadau o'r Arctig a'r Isarctig rwy'n ceisio rhoi sylwedd i'r elfen honno o'r tirwedd sy'n awgrymu'r hyn sydd y tu hwnt i brofiad corfforol. Mae natur anghysbell rhannau o'r Gogledd yn creu rhyw ymwybyddiaeth allfydol ynof ac rwy'n ceisio mynegi'r teimladau hyn mewn peintiadau o awyr y nos sydd yn aml yn cynnwys delweddau a seiliwyd ar yr Aurora Borealis neu Wawl y Gogledd".

Fe'i dewiswyd i gychwyn rhaglen Arlunwyr ac Ysgrifenwyr yr Arolwg Antartig Prydeinig rhwng Rhagfyr 2001 a Chwefror 2002.



*The Night,*
*Oil on Canvas*
*Olew ar Ganfas*

## Maurice A Greenwood



Born in Rochdale, Lancashire, 1930. Has lived in North Wales since 1960.

Studied at Rochdale & Bury Art Colleges.

Elected to RCA 1989.

Maurice Greenwood worked in the Art Department of Llandrillo College until 1996. He continues to teach for the University of Wales, Bangor, the WEA and residential art courses for HF Holidays.

---

Ganed yn Rochdale, Swydd Gaerhirfyn, 1930. Mae wedi byw yng Ngogledd Cymru er 1960.

Astudiodd yng Ngholegau Celf Rochdale & Bury.

Etholwyd i'r AFG 1989.

Roedd Maurice Greenwood yn gweithio yn Adran Gelf Coleg Llandrillo tan 1996. Mae'n dal i ddysgu ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, ar ran Cymdeithas Addysg y Gweithwyr ac ar gyrsiau celf preswyl i HF Holidays.



*Hubberholme, Yorkshire*
*Watercolour/Dyfrliw*



## Daisy Wyn Griffith

Born in 1940. Lives on Anglesey.

Studied Fine Art at Liverpool College of Art.

Elected to RCA 1985.

"My work reflects my immediate surroundings and respond to a sense of belonging. I am currently working towards a solo exhibition at Oriel Ynys Môn in 2002".

Ganed yn 1940. Mae'n byw ar Ynys Môn.

Astudiodd Gelfyddyd Gain yng Ngholeg Celf Lerpwl.

Etholwyd i'r AFG 1985.

"Mae fy ngwaith yn adlewyrchu fy amgylchfyd agos ac ymateb i'r teimlad o fod yn perthyn. Ar hyn o bryd 'rwyf yn gweithio tuag at arddangosfa un person yn Oriel Ynys Môn ym Mehefin 2002".



*Lôn Myfyrion*
*Oil/Olew*



## David Lloyd Griffith

Born Colwyn Bay, 1956. Lives in the Conwy Valley, North Wales.

Studied at Newi, Wrexham and the Open College of the Arts.

Elected to RCA 1988.

"The emotional response I experience from the landscape is fundamental to my creative process. Simply, if I did not love the landscape I could not paint it. Artists need adrenalin blows, I experience mine through nature."

Ganed ym Mae Colwyn, 1956. Mae'n byw yn Nyffryn Conwy, Gogledd Cymru.

Astudiodd yn Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru, Wrecsam a Choleg Agored y Celfyddydau.

Etholwyd i'r AFG 1988.

"Mae'r ymateb emosiynol a gaf o'r tirwedd yn gwbl sylfaenol i'm proses greadigol. Yn syml, pe na bawn yn caru'r tirwedd ni allwn ei beintio. Mae angen hyrddiau o adrenalin ar arlunwyr, rwyf i'n cael yr hyrddiau hynny o natur."



*Spring, Llysfaen*
*Oil/Olew*

## Mary Griffiths

Born Wales, 1956. Lives in Cambridge.

Studied at Croydon College of Art.

Elected to RCA 2000.

A figurative painter. Mary Griffiths has won many prestigious prizes for her work including the Gold Medal at the National Eisteddfod in 1994, the Hunting Art Prize at the Royal College of Art in 1995 and the Lady Evershed Drawing Prize at the Eastern Open in 1997.

---

Ganed yng Nghymru, 1956. Mae'n byw yng Nghaergrawnt.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Croydon.

Etholwyd i'r AFG 2000.

Arlunydd ffigurol. Mae Mary Griffiths wedi ennill llawer o wobrau amlwg am eu gwaith gan gynnwys y Fedal Aur yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1994, Gwobr Gelf Hunting yn y Coleg Celf Brenhinol yn 1995 a Gwobr Tynnu Llun y Fonesig Evershed yn yr Eastern Open yn 1997.



*Untitled*
*Oil/Olew*



## Christopher Hall

Born in 1930. Lives in Newbury, Berkshire.

Studied at the Slade School of Art, London.

Member of the Royal Society of British Artists.

Elected to RCA 1994.

A painter of landscape and architectural subjects, often commissioned to portray buildings. His quest for the very spirit of the places and not just their physical appearance, has led him to strange locations in countries all over the world. During his visits to Wales he became familiar with the landscape and people of Wales. Here his idiosyncratic style expresses the quirkiness of old buildings and a certain nostalgia for a bygone Wales of the 19th century.

---

Ganed yn 1930. Mae'n byw yn Newbury, Berkshire.

Astudiodd yn Ysgol Gelf Slade, Llundain.

Aelod o Gymdeithas Frenhinol Arlunwyr Prydain.


Etholwyd i'r AFG 1994.

Mae ei ymdriniaeth yn hanfodol draddodiadol er cymaint yn bersonol. Mae ei gais i ddal ysbryd llefydd ac nid yn unig eu hedrychiad, wedi ei ddenu i lefydd dieithr mewn gwledydd drwy'r byd. Yn ystod ei ymweliadau â Chymru daeth i adnabod y tirlun a'r Cymry. Yma cawn weld ei ddull mympwyol o fynegi hynodrwydd hen adeiladau ac ychydig o hiraeth am y Gymru a fu o'r 19fed Ganrif.



*Corris Uchaf*
*Oil/Olew*

## Audrey Hind



Born in Cheshire. Has lived on Anglesey since 1962.

Studied at Northwich College of Art, Manchester and Liverpool College of Art.

Elected to RCA 1978.

Audrey Hind works in oil, watercolour pastel and mixed media and also produces etchings and aquatints. She works mainly on themes of light, colour and forms observed from the constantly changing sky, sea and landscape around the island of Anglesey and the mountains of Snowdonia.


---

Ganed yn Swydd Gaer. Mae wedi byw ar Ynys Môn er 1962.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Northwich a Choleg Celf Lerpwl.

Etholwyd i'r AFG 1978.

Mae Audrey Hind yn gweithio mewn olew, pasteli dyfrllyw a chyfryngau cymysg ac mae hefyd yn cynhyrchu ysgythriadau ac acwatintau. Mae'n gweithio'n bennaf ar themâu y golau, y lliw a'r ffurfiau cyfnewidiol a welir yn yr awyr, y môr a'r tirwedd o amgylch Ynys Môn a mynyddoedd Eryri.



*Llaneilian*
*Oil/Olew*

## John Hobart

Lives in Cornwall.

Studied Natural Sciences at University College, London. (Professor in Forest Entomology).

A self taught artist.

Elected to RCA 1963. Vice President 1980-1984.

"Since turning to painting full time in 1982, 90% of my work has been confined to the studio where I produce long series of works investigating and developing ideas based on line, shape and colour. Small scale collages play a large part of this work, using all manner of material, but in particular waste paper and 'junk mail'. Larger paintings in oil and acrylic are occasionally undertaken and generally based on the smaller exploratory works."

---

Mae'n byw yng Nghernyw.

Astudiodd y Gwyddorau Naturiol yng Ngholeg y Brifysgol, Llundain. (Athro mewn Entomoleg Coedwigoedd)


Arlunydd sydd wedi ei ddysgu ei hun.

Etholwyd i'r AFG 1963. Is-lywydd 1980-1984.

"Ers troi'n arlunydd amser llawn yn 1982, mae 90% o'm gwaith wedi ei gyfyngu i'r stiwdio lle'r wyf yn cynhyrchu cyfres hir o weithiau yn ymchwilio i ac yn datblygu syniadau sydd wedi eu seilio ar linell, siâp a lliw. Mae collages ar raddfa fach yn chwarae rhan fawr yn y gwaith hwn, gan ddefnyddio pob mathau o ddeunydd ond yn arbennig bapur gwastraff a 'llythyrau sothach'. O bryd i'w gilydd rwy'n gwneud peintiadau mwy mewn olew ac acrylig ac fel arfer mae'r rhain wedi'u seilio ar weithiau archwiliadol llai."



*Blue Plus*
*Acrylic & Collage/Acrylig & Gludwaith*



## Harry Holland

Born Glasgow, 1941. Has lived in Cardiff since the 1970s.

Studied at St Martin's School of Art, London.

Elected to RCA 1992.

Harry Holland's work is renowned for its intellectual and painterly qualities giving him a truly international reputation. His work is represented in the Tate Gallery, London and the Metropolitan Museum, New York, as well as in many other public and private collections worldwide. He regularly exhibits at the Martin Tinney Gallery in Cardiff.

---

Ganed yn Glasgow, 1941. Mae wedi byw yng Nghaerdydd ers yr 1970au.

Astudiodd yn Ysgol Gelf St Martin's, Llundain.

Etholwyd i'r AFG 1992.

Mae gwaith Harry Holland yn adnabyddus am ei nodweddion deallusol ac arlunyddol ac mae wedi gwneud enw gwirioneddol ryngwladol iddo. Mae darnau o'i waith i'w gweld yn y Tate Gallery, Llundain a'r Metropolitan Museum, Efrog Newydd, yn ogystal ag mewn llawer o gasgliadau cyhoeddus a phreifat eraill ledled y byd. Mae'n arddangos yn rheolaidd yn Oriel Martin Tinney yng Nghaerdydd.



*Shy*
*Oil/Olew*



## William Housley

Born Manchester, 1935. Lives in Llandudno, Conwy.

Studied at Chelsea School of Art.

Elected to RCA 1991.

William Housley paints Portraits, Marine Paintings and Animals mainly in oil.


---

Ganed ym Manceinion, 1935. Mae'n byw yn Llandudno, Conwy.

Astudiodd yn Ysgol Gelf Chelsea.

Etholwyd i'r AFG 1991.

Mae William Housley yn peintio Portreadau, Peintiadau Morol ac Anifeiliaid, mewn olew yn bennaf.



*Dorothy*
*Oil/Olew*



## Darren Hughes

Born North Wales, 1970. Lives in Bethesda, Gwynedd.

Studied at Falmouth School of Art & Design and Cyprus College of Art, Paphos.

Elected to RCA 2000.

"I live and work in Bethesda and concentrate on the area which immediately surrounds my house and studio. I seek to reflect the sense of an everyday human presence in the landscape in which I work.

"My work is very much based in drawing and seeks to explore the structure and permanence of the land as well as its beauty. Elements such as light and the way one reads a particular landscape in terms of ones field of vision (both horizontally and vertically) are becoming increasingly important concerns."

Ganed yng Ngogledd Cymru, 1970. Mae'n byw ym Methesda, Gwynedd.

Astudiodd yn Ysgol Gelf a Dylunio Falmouth a Choleg Celf Cyprus, Paphos.


Etholwyd i'r AFG 2000.



*Gerlan, New Year*
*Mixed/Cymysg*

"Rwy'n byw a gweithio ym Methesda ac yn canolbwyntio ar y cyffiniau agos o amgylch fy nhŷ a'r stiwdio. Rwy'n ceisio adlewyrchu'r ymdeimlad o bresenoldeb dynol beunyddiol yn y tirwedd yr wyf yn gweithio ynddo.

Mae fy ngwaith wedi ei seilio'n helaeth iawn ar dynnu lluniau ac mae'n ceisio archwilio strwythur a natur fythol y tir yn ogystal â'i harddwch. Mae elfennau megis golau a'r ffordd y mae rhywun yn darllen tirlun neilltuol yn nhermau ein rhychwant gweld (ar draws ac ar i fyny) yn dod yn fwy a mwy pwysig i mi."



## David Humphreys

Born in London of a Welsh father and a Scots mother and bought up in London and Wales. Lives in West Sussex.

Studied Fine Art at Durham University.

Elected to RCA 1994.

"The ancient legends and the modern landscape and their interaction form the main elements in my paintings of Wales."

Ganed yn Llundain i Gymro ac Albanes ac fe'i magwyd yn Llundain a Chymru. Mae'n byw yn West Sussex.

Astudiodd Gelfyddyd Gain ym Mhrifysgol Durham.

Etholwyd i'r AFG 1994.

"Y chwedlau hynafol a'r tirlun modern a'r ffordd y maent yn rhyngweithio â'i gilydd yw'r prif elfennau yn fy mheintiadau o Gymru."



*The Voyage*
*Acrylic/Acrylig*

## Shani Rhys James



Born in Melbourne Australia, 1951. Lives near Welshpool, Powys.

Studied at Loughborough College of Art and St Martins School of Art, London.

Elected to RCA 1994.

"My paintings are often personal, but also universal. Something which might be seemingly straightforward has often other interpretations which I'm oblivious to at the time. All these images come from a culmination of experience - living in London for years, the rooms in the city, the infringement of space and thought, the isolation of such a place, also the atmosphere and fibre and feeling coming from the steeped-in-history of my home Dol Pebyll in Wales".

Ganed ym Melbourne Awstralia, 1951. Mae'n byw ger y Trallwng, Powys.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Loughborough ac Ysgol Gelf St Martins, Llundain.

Etholwyd i'r AFG 1994.

"Mae fy mheintiadau yn aml yn bersonol, ond yn berthnasol i bawb hefyd. Yn aml, gellir dehongli rhywbeth sy'n ymddangos yn syml mewn ffyrdd eraill, nad wyf fi'n ymwybodol ohonynt ar y pryd. Daw'r holl ddelweddau hyn o gyfuniad o brofiad – byw yn Llundain am flynyddoedd, ystafelloedd y ddinas, pethau'n tarfu ar eich gofod a'ch meddyliau, unigrwydd mewn lle o'r fath, ynghyd â'r awyrgylch a'r rhuddin a'r teimlad a geir o'm cartref Dol Pebyll yma yng Nghymru, sy'n gyforiog o hanes".



*The Cot*
*Oil/Olew*

## Rebecca John



Born London, 1947.

Studied at the Central School of Art and Design and Botanical Illustration at Chelsea Physic Garden.

Elected to RCA 1996.

Rebecca John divides her time between a small flat in Covent Garden and a cottage in mid Wales. For the past few years she has put herself to work as a botanical artist. She interrupted this career briefly to curate a magnificent and redefining exhibition of her grandfather Augustus John's drawings in 1996. She has had solo shows in The Lefevre Gallery, London 1999 and 2001 and Davis and Longdale Inc., New York 2000.

Ganed yn Llundain 1947.

Astudiodd yn yr Ysgol Gelf a Dylunio a Lluniadu Botanegol Ganolog yn Chelsea Physic Garden.

Etholwyd i'r AFG 1996.

Mae Rebecca John yn rhannu ei hamser rhwng fflat fechan yn Covent Garden a bwthyn yn y Canolbarth. Dros y blynyddoedd diwethaf mae wedi bwrw ati i weithio fel arlunydd botanegol. Rhoddodd yr yrfa hon o'r neilltu am gyfnod byr yn 1996 i fod yn guradur arddangosfa ragorol o luniadau ei thaid, Augustus John, a fwriodd oleuni newydd ar ei waith. Mae wedi cael ei sioeau ei hun yn The Lefevre Gallery, Llundain 1999 a 2001 a Davis and Longdale Inc., Efrog Newydd 2000.



*Sycamore Flowers Unfurling*
*Watercolour/Dyfrliw*



## Aneurin Jones

Born in Cwm Wysg on the border of the old counties of Brecon and Carmarthen.

Studied at Swansea College of Art.

Elected to RCA 2001.

"Rural characters have inhabited my imagination for decades. What part does imagination play, and how has this been influenced by memory, is a question I occasionally ponder. The only certainty in my art is the prominent and constant place of rural characters, of country scenes, of an atmosphere - sometimes redolent of spent passions".

---

Ganed yng Nghwm Wysg ar y ffin rhwng hen siroedd Brycheiniog a Chaerfyrddin.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Abertawe.

Etholwyd i'r AFG 2001.

"Mae cymeriadau'r wlad wedi apelio ataf fel arlunydd ers blynyddoedd - eu hosgo, yn enwedig y patrwm gweledol y mae'r dwylo a'r capan yn ei wneud. Gwelaf hwy yn y mart, treialon cŵn defaid a Sadwrn Barlys, Aberteifi. Mae'r elfennau hyn yn creu rhyw gynnwrf ynof, yn rhoi rhyw hwb i'r dychymyg, rhyw gyffro i'r weledigaeth".



*Cymeriadau Cwm Wysg*
*Oil/Olew*



## Joy Farrall Jones

Born Bangalore, South India. Lives in Colwyn Bay, North Wales.

Studied at the Regional College of Art, Manchester and St Martin's School of Art, London.

Elected to RCA 1997.

Joy Jones lives in North Wales. She works in several media including oil, watercolour and tempera. Born and brought up in India, she takes particular delight in colour and linear form, and has been influenced by the Indian school of miniature painting. She specialises in still life and portraiture.

---

Ganed yn Bangalore, De India. Mae'n byw ym Mae Colwyn, Gogledd Cymru.

Astudiodd yn y Coleg Celf Rhanbarthol, Manceinion ac Ysgol Gelf St Martin's, Llundain.

Etholwyd i'r AFG 1997.

Mae Joy Jones yn byw yng Ngogledd Cymru. Mae'n gweithio mewn sawl cyfrwng gan gynnwys olew, dyfrlliw a thempera. Wedi'i geni a'i magu yn India, mae'n ymhyfrydu'n arbennig mewn lliw a ffurfiau llinol, a dylanwadwyd arni gan ysgol mân-ddarlunio India. Mae'n arbenigo mewn bywyd llonydd a phortreadau.



*The Watcher at the Window*
*Tempera on board/Tempera ar fwrdd*



## Julia Jones

Born near Barnsley, Yorkshire, 1938. Has lived on Anglesey since 1974.

Studied at University College Wales, Aberystwyth and Bangor Technical College.

Elected to RCA 2001.

"From a very early age I have enjoyed drawing and painting. As a student I did science but now I feel I am back on track doing the thing I really wanted to do. I am basically a tonal painter. Light and the effect it has on the landscape and on the familiar objects which surround me at home, has always caught my attention. I sketch in pencil and watercolour but most of my finished paintings are done in acrylic, a medium which I find very versatile and unconstraining."

---

Ganed ger Barnsley, Swydd Efrog, 1938. Mae wedi byw ar Ynys Môn er 1974.

Astudiodd yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth a Choleg Technegol Bangor.

Etholwyd i'r AFG 2001.

"Rwyf wedi mwynhau tynnu lluniau a pheintio ers oeddwn yn fach iawn. Astudio gwyddoniaeth a wnes fel myfyriwr ond erbyn hyn mae pethau wedi disgyn i'w lle ac rwy'n gwneud yr hyn yr oeddwn am ei wneud mewn gwirionedd. Arlunydd arlliwiol ydw i yn y bôn. Mae'r golau a'r effaith a gaiff ar y tirwedd ac ar y gwrthrychau cyfarwydd sydd o'm hamgylch gartref wedi hawlio fy sylw erioed. Rwyf yn braslunio mewn pensel a dyfrlliw ond mae'r rhan fwyaf o'm paentiadau gorffenedig mewn acrylig, cyfrwng hyblyg iawn nad yw'n cyfyngu fawr ar yr arlunydd."



*Mantlepiece*
*Acrylic/Acrylig*



## Mary Lloyd Jones

Born in Devil's Bridge / Pontarfynach, Ceredigion. Lives in Aberystwyth.

Studied at Cardiff College of Art

Elected to RCA 1994.

"The initial urge to begin a series of works always follows being out in a big space experiencing solitude and emptiness, weather and wilderness and this is why I am a landscape painter. In our culture, the rural is associated with backwardness, so by painting the rural as opposed to the urban, one is in danger of being swamped by the opposing tide. Using colour as a musical language I try to sing the landscape. It is through paint that the language of colour can be best explored and this is why, in the face of the general rejection of mainstream art, I remain committed to the art of painting."

---

Ganed ym Mhontarfynach, Ceredigion. Mae'n byw yn Aberystwyth.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Caerdydd.

Etholwyd i'r AFG 1994.

"Bod allan mewn lle eang, yn blasu unigedd a gwactod, y tywydd ac anghyfannedd-dra, sydd bob amser yn tanio'r awydd ynof i ddechrau ar gyfres o weithiau a dyna pam mai arlunydd tirlun ydw i. Yn ein diwylliant ni, cysylltir pethau gwledig â bod ar ôl yr oes, felly o beintio'r gwledig yn hytrach na'r trefol mae yna berygl o gael eich boddi gan rym y llanw sy'n llifo'r ffordd arall. Drwy ddefnyddio lliw fel iaith gerddorol rwy'n ceisio canu'r tirwedd. Y ffordd orau o archwilio iaith lliw yw drwy baent a dyna pam yr wyf i yn dal i ymroi i'r grefft o beintio, er ei bod yn cael ei gwrthod yn gyffredinol gan gelfyddyd brif ffrwd."



*Mwyn Plwm*
*Oil/Olew*



## Tom Jones

Born Colwyn Bay, 1936.

Studied at the University of Liverpool.

Member of the Royal Institute of British Architects.

Elected to RCA 1996.

Painter, Architect, Printmaker.

Ganed ym Mae Colwyn, 1936.

Astudiodd ym Mhrifysgol Lerpwl.

Aelod o Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain.

Etholwyd i'r AFG 1996.

Arlunydd, Pensaer, Gwneuthurwyr Printiau.



*St. Marks in the rain*
*Watercolour/Dyfrliw*



## Victor Kelly

Lives in Birmingham.

Studied at Liverpool College of Art and Birmingham Teachers Training College.

Past Vice President of the Royal Birmingham Society of Artists; Past President Birmingham Watercolour Society.

Elected to RCA 1992.

"My senses are stirred by passing moments of light on landscape, the movement of water or the erosion of some boat that has served its time So I think I follow in the great tradition of the romantic painters".

Mae'n byw ym Mirmingham.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Lerpwl a Choleg Hyfforddi Athrawon Birmingham.

Cyn Is-lywydd ar Gymdeithas Arlunwyr Frenhinol Birmingham, Cyn Lywydd ar Gymdeithas Arlunwyr Dyfrlliw Birmingham.

Etholwyd i'r AFG 1992.

"Caiff fy synhwyrau eu cyffroi gan ennyd o liw ar dirwedd, dr yn symud neu'r erydu a welir ar ryw gwch sydd wedi gweld ei amser gorau. Credaf felly fy mod yn dilyn yn nhraddodiad anrhydeddus yr arlunwyr rhamantaidd".



*Dwygyfylchi*
*Acrylic/Acrylig*

## John Knapp-Fisher



Born London, 1931. Has lived in Pembrokeshire since 1965.

Studied Graphic Design at Maidstone College of Art.

Elected to RCA 1992.

"My methods of working, and the subjects I like to paint have changed little in the forty five years since I resolved to make a living at my art. I work, in the initial stages at least, direct from my subject – direct from nature. Many people say I do not use much colour. This is not correct, for although I do have a limited palette, I am seeking what I call 'the edge of colour', where the earth colours and touches of primary colour emerge from the darks and where tonal relationships, quality, texture and chiaroscuro are all important.

My subjects continue to be landscape, seascape, buildings, boats, figures, animals and fish. I observe, feel and interpret. I do not copy. Nor do I invent, which is why I am not an abstract painter in the accepted definition of the term."

---

Ganed yn Llundain, 1931. Mae wedi byw yn Sir Benfro er 1965.

Astudiodd Ddylunio Graffig yng Ngholeg Celf Maidstone.

Etholwyd i'r AFG 1992.

"Nid yw fy nulliau gwaith, a'r testunau yr wyf yn hoff o'u peintio, wedi newid fawr yn y pump a deugain o flynyddoedd ers i mi benderfynu ennill bywoliaeth o'm celfyddyd. Rwy'n gweithio, i ddechrau beth bynnag, yn uniongyrchol o'r testun – yn uniongyrchol o natur. Mae llawer o bobl yn dweud nad ydw i'n defnyddio llawer o liw. Nid yw hynny'n wir, oherwydd er bod fy mhalet yn gyfyngedig, rydw i'n ceisio'r hyn yr wyf yn ei alw yn 'ymyl lliw', lle mae lliwiau'r pridd a chyffyrddiadau o liw sylfaenol yn dod allan o'r lliwiau tywyll a lle mae'r berthynas rhwng arlliwiau, ansawdd, gwead a chiarosgwro i gyd yn bwysig.

Tirweddau, y môr, adeiladau, cychod, ffigyrau, anifeiliaid a physgod yw fy nhestunau o hyd. Rwy'n arsylwi, yn teimlo, yn dehongli. Nid wyf yn copïo. Nid wyf chwaith yn dyfeisio, a dyna pam nad wyf yn arlunydd haniaethol yn ôl diffiniad arferol y term."



*Storm Coast Oil/Olew*

## Emma Knowles



Born in North Wales. Lives in Manchester.

Studied at Bangor Technical College; Norwich School of Art and North Trafford College of Further Education, Manchester.

Elected to RCA 2000.

"Throughout my artistic practice the human form has dominated my subject matter. I paint sometimes directly from life, which has always been an intuitive process and sometimes using photography as a source, which is relatively new and still, I suppose, in its infancy. I strive to capture the essence of an individual, their characteristics, bold and without any distraction - as the saying goes 'warts and all'."


---

Ganed yng Ngogledd Cymru. Mae'n byw ym Manceinion.

Astudiodd yng Ngholeg Technegol Bangor; Ysgol Gelf Norwich a Choleg Addysg Bellach North Trafford, Manceinion.

Etholwyd i'r AFG 2000.

"Fel arlunydd, y ffurf ddynol yw'r testun yr wyf wedi canolbwyntio arno erioed. Weithiau rwy'n peintio'n uniongyrchol o fywyd, proses a fu'n un reddfol erioed, ac weithiau rwy'n defnyddio ffotograffau fel ffynhonnell, rhywbeth cymharol newydd nad ydw i ond megis dechrau ei feithrin. Rwy'n ceisio cael gafael ar hanfod unigolyn, ei nodweddion, a'i ddarlunio'n eofn, gyda'i holl ffaeleddau, heb i ddim darfu ar hynny."



*Joan*
*Oil/Olew*

## Mike Knowles



Born in Warrington, Lancashire, 1941. Mike Knowles lives in Anglesey and also maintains a studio in Liverpool.

Studied at Liverpool College of Art and the Slade School of Fine Art, London.

Elected to RCA 1992.

"My work is concerned largely with landscape, both rural and urban, although the human figure continues to be a recurrent subject."

---

Ganed yn Warrington, Swydd Gaerhirfryn, 1941. Mae Mike Knowles yn byw ar Ynys Môn ac mae ganddo stiwdio yn Lerpwl hefyd.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Lerpwl ac Ysgol Celfyddyd Gain Slade, Llundain.

Etholwyd i'r AFG 1992.

"Mae fy ngwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar y tirwedd, gwledig a threfol, er bod y ffurf ddynol yn destun sy'n dal i ymddangos dro ar ôl tro."



*Hillside Gorse Flowering*
*Oil/Olew*

## Diane Lawrenson



Born Liverpool, 1946. Lives in Cumbria.

Studied at Keighley College, West Yorkshire specialising in Ceramic Sculpture.

Elected to RCA 2000.

"My work is representational, in bronze and resin bronze. Alongside commissions I am exploring the human condition from a woman's perspective, expressing a realistic view of their role in society and family, inner strengths, vulnerability, courage."

---

Ganed yn Lerpwl, 1946. Mae'n byw yn Cumbria.

Astudiodd yng Ngholeg Keighley, Gorllewin Swydd Efrog gan arbenigo mewn Cerflunwaith Ceramig.

Etholwyd i'r AFG 2000.

"Gwaith cynrychioliadol yw fy ngwaith i, mewn efydd ac efydd resin. Ochr yn ochr â chomisiynau rwy'n archwilio'r cyflwr dynol o safbwynt y fenyw, gan fynegi barn realistig o'i rôl mewn cymdeithas ac o fewn y teulu, ei chryfderau mewnol, ei gwendid, ei dewrder."



*Westmorland Woman*
*Bronze/Efydd*

## Karel Lek



Born Antwerp, 1929. Has lived in North Wales since 1940.

Studied at Liverpool College of Art.

Elected to RCA 1955.

"I feel compelled to paint my fellow men and women in their environment - whether urban or rural - whatever they may be doing at that time. My landscape subjects are painted at any time of the year with a preference, perhaps, for the seasons of autumn and winter.

Painters express themselves visually, and my tubes of paint and bottles of ink contain my words. If, however, others were trying to sum up my work, I hope that somewhere the words 'compassion and honesty' might appear."

Ganed yn Antwerp, 1929. Mae wedi byw yng Ngogledd Cymru er 1940.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Lerpwl.

Etholwyd i'r AFG 1955.

"Rwy'n teimlo bod yn rhaid i mi beintio fy nghyd ddynion a menywod yn eu hamgylchedd – boed hwnnw'n drefol neu'n wledig – beth bynnag y maent yn ei wneud ar y pryd. Byddaf yn peintio fy nhirluniau unrhyw adeg o'r flwyddyn ond efallai mai tymhorau'r hydref a'r gaeaf yw fy ffefrynnau.

Mae arlunwyr yn mynegi eu hunain yn weledol, a'm tiwbiau paent a'm poteli inc i sy'n cynnwys fy ngeiriau. Fodd bynnag, pe bai eraill yn ceisio crynhoi fy ngwaith, rwy'n gobeithio y byddai'r geiriau 'tosturi a gonestrwydd' yn ymddangos."



*Card Players*
*Oil/Olew*

## Ann Lewis

Born in 1962. Lives in Bethesda, Gwynedd.

Studied at Bangor Technical College and Exeter College of Art and Design specialising in illustration.

Elected to RCA 1991.

"In both my painting and printmaking, my subject is invariably the landscape, or elements within the landscape. Working in mixed media gives me the range of colours and textures I require to visualise different elements of the landscape.

The aim of my work is not only to interpret the way the landscape looks 'on the surface' but also to try to capture something of its essence and mood at a particular moment. The work is influenced by factors outside my control, weather, light and seasonal fluctuations and by personal feelings and disposition."

Ganed yn 1962. Mae'n byw ym Methesda, Gwynedd.

Astudiodd yng Ngholeg Technegol Bangor a Choleg Celf a Dylunio Caer-wysg gan arbenigo mewn darlunio.


Etholwyd i'r AFG 1991.

"Wrth beintio a chreu printiau, y tirwedd, neu elfennau oddi mewn i'r tirwedd, yw fy nhestun bob amser. Mae gweithio mewn cyfryngau cymysg yn rhoi i mi'r amrywiaeth lliwiau a gweadau y mae eu hangen arnaf i ddelweddu gwahanol elfennau o'r tirwedd.

Nid dim ond dehongli sut y mae'r tirwedd yn edrych 'ar yr wyneb' yw nod fy ngwaith – mae hefyd yn ceisio cael gafael ar ei hanfod a'i hwyliau ar adeg benodol. Dylanwadir ar y gwaith gan ffactorau y tu hwnt i'm rheolaeth, y tywydd, golau, amrywiadau tymhorol a'm hanian a'm teimladau personol i."



*Cwm Idwal Watercolour / Dyfrliw*



## Peter Lord

Born Exeter, 1948. Lives in Aberystwyth.

Studied Fine Art at the University of Reading.

Elected to RCA 2000.

From 1971-86 Peter Lord worked primarily as a sculptor but has since worked mainly as an art historian. He is currently a research fellow at the University of Wales, Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies and has produced three volumes under the collective title of The Visual Culture of Wales. His BBC series entitled 'The Big Picture' in 2000 examined and celebrated the traditions of Welsh Art from the Tudor period to the 1950s.

His book "Clarence Whaite and the Welsh Art World; The Betws-y-Coed Artists' Colony 1844-1914 describes the early days of the Royal Cambrian Academy.

---

Ganed yng Nghaer-wysg, 1948. Mae'n byw yn Aberystwyth.

Astudiodd Gelfyddyd Gain ym Mhrifysgol Reading.

Etholwyd i'r AFG 2000.

Rhwng 1971 ac 1986 roedd Peter Lord yn gweithio'n bennaf fel cerflunydd ond ers hynny bu'n gweithio fel hanesydd celf gan mwyaf. Ar hyn o bryd mae'n gymrawd ymchwil yng Nghanolfan Uwch Efrydiau Cymraeg a Cheltaidd Prifysgol Cymru ac mae wedi cynhyrchu tair cyfrol o dan y teitl cyfansawdd The Visual Culture of Wales. Roedd ei gyfres BBC o dan yr enw 'The Big Picture' yn 2000 yn edrych ar ac yn dathlu traddodiadau Celf Cymru o oes y Tuduriaid hyd at yr 1950au.

Mae ei lyfr 'Clarence Whaite and the Welsh Art World; The Betws-y-Coed Artists' Colony 1844-1914 yn disgrifio dyddiau cynnar yr Academi frenhinol Gymreig.

## David Loten

Born in 1938. Lives in Bethesda, Gwynedd and Montaigu de Quercy, France.

Studied at Chelsea School of Art and the Royal Academy Schools.

Elected to RCA 1994.

"Owing to a passion for French painting I spend half the year working toward a greater understanding of light and colour in the South West of France, and the other half in my Snowdonia home."

---

Ganed yn 1938. Mae'n byw ym Methesda, Gwynedd a Montaigu de Quercy, Ffrainc.

Astudiodd yn Ysgol Gelf Chelsea ac Ysgolion yr Academi Frenhinol.

Etholwyd i'r AFG 1994.

"Am fy mod yn gwirioni cymaint ar baentiadau Ffrengig rwy'n treulio hanner y flwyddyn yn ceisio meithrin gwell dealltwriaeth o olau a lliw yn Ne Orllewin Ffrainc, a'r hanner arall yn fy nghartref yn Eryri."



*Self Portrait*
*Oil/Olew*

## Sally Matthews



Born Tamworth, 1964. Lives near Builth Wells, Powys.

Studied at Loughborough College of Art and Design.

Elected to RCA 2000.

"My painting tutors continually asked me for deep and meaningful reasons for my painting animals which I could not provide them with... Everyone has their own reasons for using animals in their art, but for me I always go back to the animals themselves for inspiration. My love of them, their different form, movement, smell and nature are the reasons for my making them. Their nature, even of a domesticated or trained animal is unpredictable and wild, their presence is always enlivening. I want my work to remind people of our need for animals and the example their nature provides us with."

---

Ganed yn Tamworth, 1964. Mae'n byw gerllaw Llanfair ym Muallt, Powys.

Astudiodd yng Ngholeg Celf a Dylunio Loughborough.

Etholwyd i'r AFG 2000.

"Roedd fy nhiwtoriaid peintio yn gofyn i mi byth a hefyd am resymau dwfn, llawn ystyr, pam fy mod yn peintio anifeiliaid, ac ni allwn eu rhoi iddynt. Mae gan bawb eu rhesymau eu hunain dros ddefnyddio anifeiliaid yn eu celf ond, i mi, rwyf wastad yn mynd yn ôl at yr anifeiliaid eu hunain am ysbrydoliaeth. Fy nghariad tuag atynt, eu gwahanol ffurfiau, eu symudiadau a'u natur yw'r rheswm pam yr wyf yn eu peintio. Hyd yn oed gydag anifail dof neu anifail sydd wedi ei ddysgu, mae yna wastad rywbeth yn eu natur na ellir ei ddarllen, rhywbeth gwyllt, ac mae eu presenoldeb bob amser yn dod â rhyw fywiogrwydd yn ei sgîl. Rwyf am i'm gwaith atgoffa pobl fod angen anifeiliaid arnom a'u hatgoffa am yr hyn y mae eu natur yn ei ddangos i ni."



*Hill Sheep*
*Thistledown and Bracken/Had ysgall a Rhedyn*

## Ishbel McWhirter



Born London, 1927. Began painting in North Wales in 1953.

Studied at A.S. Neill's Summerhill school and then under Oskar Kokoschka at his 'School of Seeing' in Salzburg.

Elected to RCA 1994.

Kokoshka encouraged her 'lively un-English palette' which has resulted in her vibrant watercolours and oils, often of the Menai Strait - a continuous theme in her work. But, she is best known for her portraits which include: Melvyn Bragg, Monsignor Gilby, Sir Kyffin Williams, Tom Conti, Germaine Greer and Lord Longford.

---

Ganed yn Llundain, 1927. Dechreuodd beintio yng Ngogledd Cymru yn 1953.

Astudiodd yn ysgol A.S. Neill yn Summerhill ac yna o dan Oskar Kokoschka yn ei 'Ysgol Gweld' yn Salzburg.

Etholwyd i'r AFG 1994.

Anogodd Kokoshka hi i ddefnyddio'i phalet 'bywiog, an-Seisnig' ac mae hynny wedi arwain at ddyfrlliwiau a phaentiadau olew llachar eu lliw, yn aml o Afon Menai – thema barhaus yn ei gwaith. Ond, mae'n fwyaf adnabyddus am ei phortreadau sy'n cynnwys: Melvyn Bragg, Monsignor Gilby, Syr Kyffin Williams, Tom Conti, Germaine Greer a'r Arglwydd Longford.



*Lord Stanley of Alderley and Gertie*
*Mixed/Cymysg*

## Dave Merrills



Born in Yorkshire. Has lived in Denbighshire since 1972.

Studied at Rotherham School of Art; Sheffield College of Art; Cardiff College of Art

Elected to RCA 1997.

Dave Merrills' work is involved with colour and light. He prefers to work in oil - life size or larger when dealing with still life close ups. He also paints his immediate environment - gardens, landscapes and beaches.

---

Ganed yn Swydd Efrog. Mae wedi byw yn Sir Ddinbych er 1972.

Astudiodd yn Ysgol Gelf Rotherham; Coleg Celf Sheffield; Coleg Celf Caerdydd

Etholwyd i'r AFG 1997.

Lliw a golau yw hanfodion gwaith Dave Merrills. Mae'n well ganddo weithio mewn olew – gwir faint neu fwy yn ei agosluniau bywyd llonydd. Mae hefyd yn peintio'r amgylchedd agos o'i gwmpas – gerddi, tirweddau a thraethau.



*Overalls*
*Oil/Olew*

## Eleri Mills



Born in Llangadfan, Powys, 1955.

Studied Art and Design at Manchester Polytechnic.

Elected to RCA 2000.

"The land has always been there in my mind, beginning with a childhood helping on the farm. The passing on of the land from one generation to the next represents continuity and instils a deep sense of belonging.

I grew up, therefore in a place where history and traditions were relevant and my familiar landscape was connected by a network of mythic and cultural associations. The art of storytelling celebrated life in all its forms, thus fuelling a culture founded on narrative as opposed to a visual tradition, creating fabulous and complex imagery of the mind."

---


Ganed yn Llangadfan, Powys, 1955.

Astudiodd Gelf a Dylunio ym Mholytechnig Manceinion.


Etholwyd i'r AFG 2000.

"Mae'r tir wedi bod yna, yn fy meddwl, erioed, gan ddechrau gyda'm plentyndod yn helpu ar y fferm. Mae trosglwyddo'r tir o un genhedlaeth i'r llall yn cynrychioli parhad ac yn rhoi i ni ymdeimlad dwfn o berthyn.

Cefais fy magu, felly, mewn man lle'r oedd hanes a thraddodiadau yn berthnasol ac roedd yna gysylltiadau chwedlonol a diwylliannol yn rhwydwaith ar draws fy nhirlun cyfarwydd. Roedd y grefft o adrodd storïau yn dathlu bywyd yn ei holl ffurfiau ac yn hybu diwylliant seiliedig ar draddodiad naratif yn hytrach nag un gweledol, gan greu delweddaeth anhygoel a chymhleth yn y meddwl."



*Caeau Gwair II*
*Paint, Charcoal & Pastel/Paent, Golosg & Pastel*



## John Meirion Morris

Born in Llanuwchllyn near Bala, 1936. Lives near Caernarfon, Gwynedd.

Studied Sculpture at Liverpool College of Art.

Elected to RCA 2000.

John Meirion Morris' work could be divided into two types. The first of these is his representational work expressed in a series of powerful heads ranging from poet Gwenallt to Lord Hooson. These compelling heads are worked in the tradition of Rodin and Epstein. The second type is symbolic and archetypal in nature. He draws on his own inner images and connects them with images and forms of early Celtic art, especially from the La Tene period.

---

Ganed yn Llanuwchllyn ger y Bala, 1936. Mae'n byw ger Caernarfon, Gwynedd.

Astudiodd Gerflunwaith yng Ngholeg Celf Lerpwl.

Etholwyd i'r AFG 2000.

Gellir rhannu gwaith John Meirion Morris i ddau gategori. Yn y categori cyntaf mae gwaith naturiolaidd sy'n cael ei gyfleu mewn cyfres o bennau grymus yn amrywio o ben y bardd Gwenallt i'r Arglwydd Hooson. Mae'r pennau nodedig hyn wedi eu gwneud yn nhraddodiad Rodin ac Epstein. Mae natur yr ail gategori yn symbolaidd ac archetypal. Yn y gwaith hwn mae'n tynnu ar ei ddelweddau mewnol a'u cysylltu â delweddau a ffurfiau celfyddyd Geltaidd gynnar, yn arbennig o gyfnod La Tene.



*Deryn Rhyddid*
*Bronze/Efydd*



## David Mortimer-Jones

Born St Asaph, 1950. Lives in Conwy.

Studied Fine Art at Liverpool and the University of Reading followed by a Boise Scholarship spent at the British School, Rome.

Member of the Royal Society of Painter-Printmakers

Elected to RCA 1993.

"I have become much more interested in the processes one can see going on in the landscape rather than the formal elements of particular landscape features. They seem to parallel the dynamic possibilities and constraints inherent in the materials and processes of printmaking. One becomes a metaphor for the other".

---

Ganed yn Llanelwy, 1950. Mae'n byw yng Nghonwy.

Astudiodd Gelfyddyd Gain yn Lerpwl a Phrifysgol Reading yna Ysgoloriaeth Boise a dreuliwyd yn yr Ysgol Brydeinig, Rhufain.

Aelod o Gymdeithas Frenhinol yr Arlunwyr Argraffwyr

Etholwyd i'r AFG 1993

"Bellach mae gennyf lawer mwy o ddiddordeb yn y prosesau y gall unigolyn eu gweld yn mynd rhagddynt mewn tirwedd yn hytrach nag elfennau ffurfiol nodweddion penodol tirwedd. Ymddengys eu bod yn cyffelybu'r posibiliadau deinamig a'r cyfyngiadau cynhenid yn y deunyddiau ac ym mhrosesau creu printiau. Mae un yn datblygu'n drosiad i'r llall".



*Gorllanw*
*Aquatint/Acwatint*

## Emrys Parry

Born Bangor, 1941. Lives in Great Yarmouth, Norfolk.

Studied at Leicester College of Art and Design.

Elected to RCA 2001.

"The idea that the land has a memory is central to my work. It is landscape based and deals exclusively with the area around Nefyn on the Llyn peninsula where I grew up. In Llyn tangible evidence of the past can be seen in the remains of Iron Age hill forts, cromlechs, sacred stones and Celtic Churches such as Pistyll on the pilgrim route to Bardsey. These appear extensively in my drawings. There is also a landscape that reveals itself in a less obvious way through the spirit of the place or anima loci. This is experienced more than seen and is the essential personality of a location."

---

Ganed ym Mangor, 1941. Mae'n byw yn Great Yarmouth, Norfolk.

Astudiodd yng Ngholeg Celf a Dylunio Caerlŷr.

Etholwyd i'r AFG 2001.

"Mae'r syniad fod gan y tir gof yn ganolog i'm gwaith. Mae wedi'i seilio ar y tirwedd ac mae'n canolbwyntio yn llwyr ar yr ardal o amgylch Nefyn a phenrhyn Llŷn lle cefais fy magu. Yn Lln mae tystiolaeth amlwg o'r gorffennol i'w gweld yn olion hen fryngaerau, cromlechi, cerrig sanctaidd ac Eglwysi Celtaidd megis Pistyll ar lwybr y pererinion i Ynys Enlli. Mae'r rhain yn ymddangos yn fynych yn fy lluniau. Mae yna hefyd dirwedd sy'n dadlennu ei hun mewn ffordd lai amlwg drwy ysbryd y lle neu anima loci. Rhywbeth i'w brofi yn fwy na'i weld yw a dyma bersonoliaeth hanfodol lleoliad."



*Arwyddion*
*Oil/Olew*



## David Petersen

Born in Cardiff. He has studios and a Gallery in St Clears in Camarthenshire.

Studied at Newport College of Art and London University.

Elected to RCA 1997.

David Petersen is a professional Artist and Broadcaster. He works in partnership at Oriel Sanglier with his three sons Aaron, Toby and Gideon who are all full-time sculptors. "I am deeply committed to ensuring that Wales has its own contemporary culture and its own cultural identity, separate from a 'London agenda'."

---

Ganed yng Nghaerdydd. Mae ganddo stiwdios ac Oriel yn Sanclêr yn Sir Gaerfyrddin.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Casnewydd a Phrifysgol Llundain.

Etholwyd i'r AFG 1997.

Mae David Petersen yn Arlunydd a Darlledwr proffesiynol. Mae'n gweithio mewn partneriaeth yn Oriel Sanglier gyda'i dri mab Aaron, Toby a Gideon sydd i gyd yn gerflunwyr amser llawn. "Mae gennyf ymroddiad dwfn i sicrhau bod gan Gymru ei diwylliant cyfoes ei hun a'i hunaniaeth ddiwylliannol ei hun, sy'n sefyll ar wahân i 'agenda Lundeinig'."




*Stamp featuring Leek carved in Scyamore*

## Rob Piercy

Born in Porthmadog, Gwynedd, 1946.

Studied at Bangor Normal College.

Member of the Watercolour Society of Wales.

Elected to RCA 1995.

Rob Piercy is known mostly for his mountain landscapes, but recently his subject matter has become more comprehensive. This search for a wider topic for his painting is the result of a gradual move away from the topographical towards a more stylised approach. Greater emphasis is placed on certain visual elements, and how they are used in the construction of the painting, colour and texture in particular, rather than on the final product.

---

Ganed ym Mhorthmadog, Gwynedd, 1946.

Astudiodd yn y Coleg Normal, Bangor.

Aelod o Gymdeithas Arlunwyr Dyfrlliw Cymru.

Etholwyd i'r AFG 1995.

Mae Rob Piercy yn adnabyddus yn bennaf am ei dirluniau o fynyddoedd, ond mae ei destunau wedi ehangu yn ddiweddar. Ffrwyth symud yn raddol oddi wrth ffurf y tir tuag at ymdriniaeth fwy arddulliedig yw'r chwilio hwn am destun mwy eang i'w beintio. Rhoddir mwy o bwyslais ar rai elfennau gweledol, a sut y'u defnyddir wrth greu'r peintiad – lliw a gwead yn arbennig – nag ar y cyfanwaith gorffenedig.



*East from Southern Down*
*Watercolour/Dyfrliw*



## Edward Povey

Born London, 1951. Lives in Bangor, Gwynedd.

Studied at the University of Wales and Eastbourne College of Art and Design.

Elected to RCA 1993.

Edward Povey has been described as a Symbolist, although this word does not satisfactorily encompass his oeuvre. Every painting is refined and adjusted until each object has meaning, its pose and placing, its colour and lighting all have significance, such that if you were to remove or add anything - it would diminish the overall composition. He shows us a world of waiting figures, grouped around tables or in orderly landscapes, enacting quiet ceremonies, playing discreet games in which their psychology reveals itself. The faces – turned in reverie, asleep or lost in contemplation, and the hands – indicating and signing, speaking a hidden language: this is the vocabulary with which he unfolds the psyche.

---

Ganed yn Llundain, 1951. Mae'n byw ym Mangor, Gwynedd.

Astudiodd ym Mhrifysgol Cymru a Choleg Celf a Dylunio Eastbourne.

Etholwyd i'r AFG 1993.

Mae Edward Povey wedi ei ddisgrifio fel Symbolydd, er nad yw'r gair hwn yn cwmpasu ei waith yn foddhaol. Mae pob peintiad yn cael ei fireinio a'i addasu nes bod yna ystyr ym mhob gwrthrych, arwyddocâd i'w ystum a'i leoliad, ei liw a'r golau y saif ynddo, i'r fath raddau nes y byddech yn tarfu ar y cyfansoddiad drwyddo draw pe baech i dynnu neu ychwanegu unrhyw beth. Dengys i ni fyd o ffigyrau sy'n disgwyl, mewn grwpiau o amgylch bwrdd neu mewn tirluniau trefnus, yn cynnal defodau tawel, yn chwarae gemau cynnil y mae eu seicoleg yn datgelu ei hun ynddynt. Yr wynebau – yn synfyfyrio, ynghwsg neu wedi ymgolli, a'r dwylo – yn dangos ac yn arwyddo, yn siarad iaith gudd; hon yw'r eirfa a ddefnyddir ganddo i ddinoethi'r psyche.



*Blue Birds*
*Oil/Olew*



## Peter Prendergast

Born in Abertridwr, South Wales, 1946. Has lived in North Wales since 1970.

Studied at the Slade School of Fine Art, London and Cardiff College of Art.

Elected to RCA 1978.

"I use the landscape as a starting point for making paintings and drawings. I believe strongly in the probity of drawing as a means of understanding the world".


---

Ganed yn Abertridwr, De Cymru, 1946. Mae wedi byw yng Ngogledd Cymru er 1970.

Astudiodd yn Ysgol Celfyddyd Gain Slade, Llundain a Choleg Celf Caerdydd.

Etholwyd i'r AFG 1978.

"Rwy'n defnyddio'r tirwedd fel man cychwyn i greu peintiadau a lluniau. Rwy'n credu'n gryf fod tynnu lluniau yn gyfrwng dilys i'n helpu i ddeall y byd".



*Bethesda Quarry*
*Acrylic/Acrylig*



## Tim Pugh

Born 1965.

Lives in Flintshire.

Studied at Wrexham College of Art and Edinburgh College of Art.

Elected to the RCA 2002.

"I am involved in the practice of constructing sculptures and installations making use of natural materials and processes and made in a variety of outdoor habitats and landscapes that includes beaches, woodlands and riversides. As well as enjoying and appreciating the beautiful colours and textures to be found in the natural world, working in the environment also makes one aware of local and worldwide ecological concerns."

---

Ganed 1965

Mae'n byw yn Sir y Fflint

Astudiodd yng Ngholeg Celf Wrecsam a Choleg Celf Caeredin

Etholwyd i'r AFG 2002

"Rwyf yn creu cerfluniau a chreadigaethau gan ddefnyddio deunyddiau a phrosesau naturiol mewn amrywiaeth o gynefinoedd awyr agored a thirluniau yn cynnwys traethau, coedlannau a glannau afonydd. Yr ogystal â mwynhau a gwerthfawrogi'r lliwiau a'r gweadau hyfryd sydd i'w cael yn y byd naturiol, mae gweithio yn yr amgylchedd hefyd yn gwneud rhywun yn ymwybodol o bryderon ecolegol lleol a byd-eang."



*Beech Experiments*



## Joy Ravenscroft

Born Cheshire, 1946. Lives in Bethesda, Gwynedd.

Elected to RCA 1979.

Joy Ravenscroft paints in oils – scenes of children – a single child within a landscape or a family group and of still life in a domestic setting. She belongs to a tradition of women painters whose work reflects the unheroic intimate world that is the life of a family.

---

Ganed yn Swydd Gaer, 1946. Mae'n byw ym Methesda, Gwynedd.

Etholwyd i'r AFG 1979.

Mae Joy Ravenscroft yn peintio mewn olew – golygfeydd o blant – un plentyn o fewn tirlun neu grŵp teuluol neu fywyd llonydd mewn amgylchedd domestig. Mae'n perthyn i draddodiad o arlunwyr benyw sy'n adlewyrchu byd personol, anarwrol, bywyd teuluol yn eu gwaith.



*Augusta in Wedding Hat*
*Oil/Olew*



## Ieuan Rees

Lives in Llandybie, South Wales.

Studied at the Royal College of Art.

Past Chairman of the Society of Scribes and Illuminators, London.

Elected to RCA 2001.

He is regarded as one of Britain's most versatile artist/craftsman in the fields of lettering, letter carving, calligraphy, heraldry and graphic communication, and earns his living from commissioned work.

---


Mae'n byw yn Llandybie, De Cymru.

Astudiodd yn y Coleg Celf Brenhinol.

Cyn Gadeirydd ar Gymdeithas yr Ysgrifenwyr a'r Addurnwyr, Llundain.

Etholwyd i'r AFG 2001.

Caiff ei ystyried yn un o artistiaid/crefftwyr mwyaf amryddawn Prydain ym maes llythrennu, cerfio llythrennau, caligraffeg, herodraeth a chyfathrebu graffig, ac mae'n ennill ei fywoliaeth o gomisiynau.




*Slate Plaque/Plac Llechen*



## Bronwen Roberts

Lives in Dolgellau, Gwynedd.

Studied at Hornsey College of Art, London and the University of Reading.

Elected to RCA 1989.

Bronwen Roberts works in oil and watercolour, her main subjects being landscapes and plant forms. She uses the relationships of those lines and colours which express the inherent character of her subject.

---

Mae'n byw yn Nolgellau, Gwynedd.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Hornsey, Llundain a Phrifysgol Reading.

Etholwyd i'r AFG 1989.

Mae Bronwen Roberts yn gweithio mewn olew a dyfrlliw, a thirweddau a phlanhigion yw ei phrif destunau. Mae'n defnyddio'r berthynas rhwng y llinellau a'r lliwiau hynny sy'n mynegi cymeriad cynhenid ei thestun.



*Stream, Cader Idris Foothills*
*Charcoal & Watercolour/Golosg & Dyfrliw*



## Colin See Paynton

Born in Bedfordshire. Has lived in Berriew, Powys for 30 years.

Studied at Northampton School of Art.

Member of the Society of Wood Engravers and Royal Society of Painter Printmakers.

Elected to RCA 1982.

"There is, I believe, something indefinable but essential to any creative work, something which provides the driving force for all my image making. An interaction has to be present between myself and the work. Somehow an energy must be generated which will run through the whole process of creating a print from the first rough drawings to the final proof.

I strive to achieve a unity and a dynamic in my work, rather as in a piece of music, allowing for and encouraging further creative input at every stage. It is true that the prime object with my wood engraving is simply to make a printed image, but the work leading to that goal must never falter and never be merely a technical, still less a mechanical exercise."

---

Ganed yn Swydd Bedford. Mae wedi byw yn Aberriw, Powys, ers 30 mlynedd.

Astudiodd yn Ysgol Gelf Northampton.

Aelod o Gymdeithas yr Ysgythrwyr Pren a Chymdeithas Frenhinol yr Arlunwyr-Argraffwyr.

Etholwyd i'r AFG 1982.

"Mae yna, rwy'n credu, rywbeth anniffiniadwy ond anhepgor i unrhyw waith creadigol yn darparu'r grym y tu cefn i bob delwedd a greaf. Rhaid fod yna ryw adwaith rhyngof fi a'r gwaith. Rywsut neu'i gilydd rhaid cynhyrchu rhyw egni a fydd yn rhedeg drwy'r broses o greu print ar ei hyd, o'r brasluniau cyntaf i'r broflen derfynol.

Rwy'n ymdrechu i gyrraedd undod a grym dynamig yn fy ngwaith, fel a geir mewn darn o gerddoriaeth, ac rwy'n gadael lle i awen greadigol bellach ym mhob cam o'r broses ac yn wir yn annog hynny. Mae'n wir mai'r amcan pennaf wrth ysgythru pren yw creu delwedd brintiedig, ond rhaid peidio â phetruso wrth ymgyrraedd at y nod hwnnw ac ni ddylai'r gwaith byth fod yn ddim ond ymarferiad technegol, ac yn sicr nid yn un mecanyddol."



*Barn Owl II*
*Wood Engraving/Engrafiad Pren*



## William Selwyn

Born in Caernarfon, Gwynedd, 1933.

Studied at Bangor Normal College.

Elected to RCA 1976.

William Selwyn's work is intensely atmospheric and revolves around the landscape of Gwynedd, local farm workers and fishermen on the Menai Straits.

Ganed yng Nghaernarfon, Gwynedd, 1933.

Astudiodd yn y Coleg Normal, Bangor.

Etholwyd i'r AFG 1976.

Mae gwaith William Selwyn yn diferu o awyrgylch ac mae'n trin a thrafod tirwedd Gwynedd, gweithwyr fferm lleol a physgotwyr ar Afon Menai.



*Lôn Goed*
*Watercolour/Dyfrliw*



## John Smout

Lives in Ruabon, Wrexham.

Studied at Stourbridge, Birmingham and Liverpool Colleges of Art.

Elected to RCA 1975.

"I find it difficult to explain my paintings in words and hope they speak for themselves. Though the artistic process knows of no hard and fast divisions I like to emphasise structure and order in the visual world, whether landscape, still life or life painting. The real and the abstract constantly intermingle when working from nature or from memory. Most of my paintings are a compilation of numerous working drawings completed over many months (if not years). The paintings are usually part of a series and are like members of one family".

Mae'n byw yn Rhiwabon, Wrecsam.

Astudiodd yng Ngholegau Celf Stourbridge, Birmingham a Lerpwl.

Etholwyd i'r AFG 1975.

"Rwy'n ei chael hi'n anodd egluro fy mheintiadau mewn geiriau ac rwy'n gobeithio eu bod yn siarad drostynt eu hunain. Er nad oes i'r broses artistig unrhyw raniadau haearnaidd, rwy'n hoffi ceisio pwysleisio strwythur a threfn yn y byd gweledol, boed hynny mewn tirlun, bywyd llonydd neu lun o fywyd go-iawn. Mae'r diriaethol a'r haniaethol yn plethu drwy ei gilydd yn barhaus wrth i mi weithio o natur neu o'm cof. Mae'r rhan fwyaf o'm peintiadau yn grynhoad o nifer o luniau gwaith a gwblhawyd dros fisoedd lawer (os nad blynyddoedd). Fel arfer mae'r peintiadau yn rhan o gyfres ac maent fel aelodau o un teulu".



## George Spafford

Lives in Wilmslow, Cheshire. Has painted in Wales since 1960.

Elected to RCA 1986.

George Spafford is referred to as a "primitive" painter. Within the naivete which is the obvious characteristics of such work, he shows a keen awareness of the oddity of things which other artists, more conventional in attitude, might overlook. This together with his sensitivity to colour, placing and proportion of shapes, gives his work its individuality and justification.


Mae'n byw yn Wilmslow, Swydd Gaer. Mae wedi peintio yng Nghymru er 1960.

Etholwyd i'r AFG 1986.

Cyfeirir at George Spafford fel arlunydd "cyntefig". O fewn y naïfrwydd sy'n nodwedd amlwg o waith o'r faith mae'n dangos ymwybyddiaeth graff o odrwydd pethau y gallai arlunwyr eraill, mwy confensiynol eu hagwedd, eu methu efallai. Mae hyn ynghyd â'i sensitifrwydd i liw, gosodiad a chymesuredd ffurfiau yn rhoi unigoliaeth a chyfiawnhad i'w waith.



*Y Felinheli, Gwynedd*
*Acrylic/Acrylig*



## Iola Spafford

Born Cambridge, 1930. Lives in Wilmslow, Cheshire. Has painted in Wales since 1960.

Studied at Bristol Art School; Nottingham Art School and the Slade School of Fine Art, London.

Member of the Manchester Academy of Fine Art.

Elected to RCA 1983.

Iola Spafford spends several months each year painting the landscape, buildings and beaches near Caernarfon. She specialises in oils, watercolour drawings and etching and is particularly interested in the effect of light on water.

Ganed yng Nghaergrawnt, 1930. Mae'n byw yn Wilmslow, Swydd Gaer. Mae wedi peintio yng Nghymru er 1960.

Astudiodd yn Ysgol Gelf Bryste, Ysgol Gelf Nottingham ac Ysgol Celfyddyd Gain Slade, Llundain.

Aelod o Academi Celfyddyd Gain Manceinion.

Etholwyd i'r AFG 1983.

Mae Iola Spafford yn treulio sawl mis bob blwyddyn yn peintio'r tirwedd, adeiladau a thraethau gerllaw Caernarfon. Mae'n arbenigo mewn olew, lluniau dyfrlliw ac ysgythru ac mae ganddi ddiddordeb arbennig yn effaith golau ar ddŵr.



*Menai Strait – Low Tide*
*Oil/Olew*



## Meg Stevens

Lives in Brecon, Powys.

Studied Fine Art at Reading University followed by a Masters at Leeds University.

Elected to RCA 1996.

"Every picture is a fight. It wouldn't be worth doing, I suppose, if it weren't. One suffers cold, heat, stiff neck, tennis elbow. Brolly springs a leak, blows away. Easel collapses. Seed's in one's socks and prickles in one's pullover!

I can't decide if it's me fighting to find how to say it or the picture fighting to get itself said. That they do get themselves somehow said is not a tribute to my skill, but to the beauty which, in spite of all that we do to our environment, insists on breaking out wherever it finds the smallest chance".

---

Mae'n byw yn Aberhonddu, Powys.

Astudiodd Gelfyddyd Gain ym Mhrifysgol Reading yna gwnaeth Radd Meistr ym Mhrifysgol Leeds.


Etholwyd i'r AFG 1996.

"Mae pob llun yn frwydr. Mae'n siŵr na fyddai'n werth ei wneud pe na bai hynny'n wir. Rhaid dioddef oerni, gwres, cric yn y gwar, penelin yn brifo. Mae'r ymbarél yn dechrau gollwng, yn chwythu i ffwrdd. Yr îsl yn torri! Mae gen i hadau yn fy sanau a drain yn fy siwmper!

Fedra i ddim penderfynu ai fi sy'n ymladd i ganfod ffordd o fynegi'r llun ynteu'r llun sy'n ymladd i gael mynegiant. Nid teyrnged i'm dawn i yw eu bod rywsut neu'i gilydd yn cael mynegiant ond teyrnged i'r harddwch sydd, er gwaethaf popeth a wnawn i'n hamgylchedd, yn mynnu torri allan pa le bynnag y caiff y cyfle lleiaf".



*Woodland near Brecon in Spring*
*Oil/Olew*



## Gordon Stuart

Born Toronto, 1924. Lives in Swansea.

Studied at Ontario College of Art, Toronto; St Martins, and Heatherley's Schools of Art, London and Brighton College of Art.

Member of the Watercolour Society of Wales.

Elected to RCA 2001.

Gordon Stuart specialises in portraiture creating immediate and informal likenesses, especially of writers, artists, musicians, actors. He also paints landscapes; figures in situ i.e. boules players, dancers and Still-life.

---

Ganed yn Toronto, 1924. Mae'n byw yn Abertawe.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Ontario; Ysgolion Celf St Martins a Heatherley's, Llundain a Choleg Celf Brighton.

Aelod o Gymdeithas Arlunwyr Dyfrlliw Cymru.


Etholwyd i'r AFG 2001.

Mae Gordon Stuart yn arbenigo mewn portreadau gan greu tebygrwydd anffurfiol, yn enwedig o lenorion, arlunwyr, cerddorion, actorion. Mae hefyd yn peintio tirluniau, pobl yn eu hamgylchedd h.y. chwaraewyr boules, dawnswyr a Bywyd llonydd.



*John Heath-Stubbs*
*Watercolour*

## Hazel Titherley



